



# **Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post**



**LE**  
London  
Economics

---

# Ynglŷn â London Economics

London Economics yw un o brif ymgynghorwyr economeg a pholisi arbenigol Ewrop ac mae'r brif swyddfa yn Llundain.

Rydym yn cynghori cleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ar ddadansoddiad economaidd ac ariannol, datblygu a gwerthuso polisi, strategaeth busnes, a pholisi rheoleiddio a chystadleuaeth. Mae ein hymgyngorwyr yn economegwyr â chymwysterau uchel sydd â phrofiad o gymhwyso amrywiaeth eang o dechnegau dadansodol i gynorthwyo ein gwaith, gan gynnwys dadansoddi cost a budd, dadansoddi aml-feini prawf, efelychu polisi, creu sefyllfaoedd tebygol, dadansoddi ystadegol a modelu mathemategol. Rydym hefyd yn brofiadol o ran defnyddio ystod eang o dechnegau casglu data, gan gynnwys adolygiadau deunydd darllen, holiaduron arolwg, cyfweiliadau a grwpiau ffocws.

Prif Swyddfa: Somerset House, New Wing, Strand, Llundain, WC2R 1LA, Y Deyrnas Gyfunol.

w: [londoneconomics.co.uk](http://londoneconomics.co.uk)

e: [info@londoneconomics.co.uk](mailto:info@londoneconomics.co.uk)

t: [@LondonEconomics](https://twitter.com/LondonEconomics)

t: +44 (0)20 3701 7700

f: +44 (0)20 3701 7701

## Cydnabyddiaethau

Hoffem gydnabod yr arweiniad a'r adborth defnyddiol a ddarparwyd gan dîm Swyddfa'r Post drwy gydol yr ymchwil hwn. Hefyd, darparodd Swyddfa'r Post i ni lawer o'r data a ddefnyddiwyd yn ein dadansoddiad. Cynhaliodd YouGov ddau arolwg fel rhan o'r ymchwil. London Economics sy'n dal yn gyfrifol am gynnwys yr adroddiad hwn.

## Awduron

**James Cannings** Ymgynghorydd Economaidd

**Jack Booth** Ymgynghorydd Economaidd

**James Suter** Cyfarwyddwr Rhanbarthol

**Dr Gavan Conlon** Partner

Gwnaed yr ymchwil maes ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2022

Hawlfraint © 2023 London Economics. Ac eithrio dyfyniadau byrion at ddibenion beirniadaeth neu adolygiad, ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r ddogfen hon heb ganiatâd.

Mae London Economics Ltd yn Gwmni Cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cofrestredig 04083204 a swyddfeydd cofrestredig yn Somerset House, New Wing, Strand, Llundain WC2R 1LA. Rhif cofrestru London Economics Cyf ar gyfer Treth ar Werth yn y Deyrnas Gyfunol yw GB769529863.



**LE**  
**London Economics**

# Tabl Cynnwys

Rhagair Prif Swydddog Gweithredol Swyddfa'r Post	4
Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post – crynodeb gweithredol	5
1. Cefndir yr ymchwil	7
2. Y darlun mawr: rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu gwerth economaidd cenedlaethol	8
2.1. Creu effaith economaidd uniongyrchol ar draws y Deyrnas Gyfunol	8
2.2. Cynhyrchu gwerth economaidd ar lefel ranbarthol a lleol	9
2.3. Cynnal swyddi a chyflogaeth ar draws y pedair gwlad	11
2.4. Cnoi cil	11
3. Galluogi menter: y rhan nas gwelir o seilwaith economaidd y Deyrnas Gyfunol	13
3.1. Galluogi busnesau bach a diwallu eu hanghenion mwyaf hanfodol	14
3.2. Sicrhau bod gwasanaethau post a pharseli gerllaw ac yn gyfleus wrth i farchnad e-fasnach y Deyrnas Gyfunol ffynnu	14
3.3. Diogelu mynediad at arian parod i fusnesau wrth i fanciau ddiflannu	16
3.4. Cnoi cil	16
4. Economeg angori: rôl swyddfeydd post wrth gynnal ein strydoedd mawr	17
4.1. Denu pobl i'n strydoedd mawr	17
4.2. Hybu busnesau manwerth Postfeistri gwesteiol	19
4.3. Cynnal miloedd o economïau gwledig lleol	19
4.4. Cnoi cil	20
5. Pecyn annatod o fywyd yn y Deyrnas Gyfunol: swyddfeydd post yn ganolfannau cymdeithasol	21
5.1. Meithrin balchder mewn cymunedau	21
5.2. Cefnogi bywyd gwledig	22
5.3. Sicrhau cyfleustra i ddefnyddwyr – yn enwedig ar gyfer gwasanaethau post	23
5.4. Cnoi cil	25
6. Mwy na siop: cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu yn ein cymdeithas	26
6.1. Darparu gwerth cymdeithasol enfawr i'r Deyrnas Gyfunol	26
6.2. Bod o gymorth cefnogol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed	28
6.3. Dod yn asgwrn cefn seilwaith arian parod a bancio'r Deyrnas Gyfunol	29
6.4. Cnoi cil	29
Atodiad 1 Asesiad o'r effaith economaidd	32
A1.1 Methodoleg	32
Atodiad 2 Gwerth cymdeithasol	35
A2.1 Methodoleg	35
A2.2 Canfyddiadau	40
A2.3 Disgrifiadau gwasanaethau ar gyfer arbrofion dewis	43
A2.3.1 Arbrawf dewis gwasanaethau	43
A2.3.2 Arbrawf dewis pellterau	44

# Rhagair Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa'r Post



**Mae'n gwbl ddamweiniol, ond yn briodol, fod yr ymchwil newydd hwn gan London Economics yn cydfynd â'r argyfwng costau byw gwaethaf a gafwyd yn y DG ers dros 40 mlynedd. Yn briodol oherwydd, fel y gwelsom yn ystod cyfyngiadau Covid, ar adegau argyfyngus y bydd pawb yn cael eu hatgoffa o werth y swyddfa bost yn eu cymuned.**

Yn hyn o beth, ein hollbresenoldeb yw ein cryfder unigryw yn ogystal â'n gwendid. Mae swyddfeydd post mor ddibynadwy yn ein plith, o ddydd i ddydd, ym mhob cymuned o'r pedair gwlad, yn darparu gwasanaethau hanfodol a bod yn ganolbwynt cymdeithasol yn ddiffwdan.

Nid yw'n syndod efallai bod yna elfen o fod yn hunanfodlon – hyd nes y bydd amgylchiadau'n troi ein sylw yn ôl at y trysor cenedlaethol rhyfeddol sydd gennym yn rhwydwaith Swyddfa'r Post.

Er bod yr ymchwil hwn eto'n adlewyrchu'r gwerth cymdeithasol sylweddol iawn y mae pobl yn ei roi ar

eu swyddfa bost, am y tro cyntaf mae hefyd yn mesur cyfraniad economaidd y busnes a rhwydwaith Swyddfa'r Post i'r DG.

Mae'r adroddiad yn dangos bod y cyfraniad economaidd hwn i'w deimlo ym mhob cornel o'r wlad, ac ym mhob etholaeth seneddol, gan gefnogi 50,000 o swyddi, a chynhyrchu effaith economaidd gyfanredol o £4.7 biliwn bob blwyddyn.

Mewn geiriau eraill, mae hyn yn fwy o gyfraniad na chyfraniad Maes Awyr Heathrow yn Llundain. Yn yr un modd, mae ein cyfraniad cymdeithasol yn werth mwy na £4 biliwn i ddefnyddwyr ledled y wlad. Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried prisiau cynyddol a'r heriau parhaus i gyllidebau'r cartref.

Pan gofiwn fod mwy na 5,000 o ganghennau banc wedi cau ers 2015, a bod y duedd hon wedi cyflymu yn sgil y Coronafeirws, efallai nad yw'n syndod bod busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn gosod gwerth o £1 biliwn ar gyrraedd swyddfeydd post yn hawdd.

Rydym bellach yn trafod dros £3.5 biliwn mewn arian parod dros ein cownteri bob mis, a chyfran fawr a chynyddol ohono yw derbyniadau busnesau bach a chanolig ledled y wlad, sy'n cyfrif am tua hanner y trosiant yn sector preifat y DG.<sup>1</sup>

Rydym wedi dod yn hanfodol i siopwyr, masnachau, a busnesau eginol ledled y DG, ac maent wedi dod i ddiwynnu ar ein presenoldeb parhaus ar strydoedd mawr y trefi a phentrefi ym mhobman.

Mae ein gwasanaethau bancio rhad ac am ddim yn achubiaeth i bobl hefyd – nid yn unig y rhai mwyaf bregus. Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud i lawer ailystyried doethineb talu wrth dapio cardiau yn ddifeddiol ac ailddarganfod pa mor ddefnyddiol y gall arian parod fod pan fo arian yn brin.

Yn syml, mae swyddfeydd post, a'r Postfeistri a'r Postfeistresi ymroddedig sy'n eu rhedeg, yn cadw pobl mewn cysylltiad ... mewn cysylltiad â'r system ariannol a'u harian nhw, â'u ffrindiau a'u hanwyliaid, â'u cwsmeriaid gartref neu dramor, ac mewn cysylltiad â'i gilydd, sef yr hyn a allai fod yr unig gysylltiad dynol drwy'r dydd.

Nid bod gwaith nad yw'n denu sylw yn ei wneud yn llai gwerthfawr ac nid bod ei hollbresenoldeb yn ei wneud yn llai pwysig. Ni ddylai unrhyw sefydliad sydd â'r gwerth economaidd a chymdeithasol a ddangosir yn yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar yr hyn y byddai pobl yn fodlon ei dalu wrth geisio dygymod â chostau byw cynyddol, gael ei anwybyddu na'i gymryd yn ganiataol. Rwy'n dadlau na ddylai llywodraeth y dydd ddiystyru sefydliad sy'n gwneud hynny, er ei fod yn llwyr eiddo i'r trethdalwr.

Wrth gwrs, bydd yr amgylchiadau o ran sut mae swyddfeydd post yn gweithredu yn newid ac mae angen i swyddfeydd post addasu yn ôl y gofynion.

Felly, er nad oes dadl dros gadw'r sefyllfa bresennol mewn rhyw fath o aspig ideolegol, mae gwerth gwirioneddol yma ym mhrofiad y miliynau o bobl a busnesau sy'n ymweld â swyddfa bost bob wythnos oherwydd eu bod yn dibynnu arnom ni.

**Ni ddylem fod yn hunanfodlon ynglŷn â hynny.**

**Nick Read**

Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa'r Post Cyfyngedig

1 Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Ystadegau Busnesau Bach y DG

# Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post – crynodeb gweithredol

Fel brand Prydeinig eiconig, mae Swyddfa'r Post wedi bod yn sefydliad cyfarwydd yn y Deyrnas Gyfunol ers amser maith. Fel un o'r mân-werthwyr mwyaf, gyda mwy na 11,500 o ganghennau, mae Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau ar draws y Deyrnas Gyfunol, mewn trefi, pentrefi ac ar y stryd fawr. Dros gyfnod o bedair canrif ymron, mae Swyddfa'r Post wedi esblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion cymdeithas a heddiw mae'n dod â gwasanaethau hanfodol i gymunedau di-rif – boed hynny'n golygu postio llythyr, darparu arian parod, neu fwydo'r mesurydd trydan.

Fodd bynnag, gall cynefindra a hollbresenoldeb Swyddfa'r Post ledled y wlad guddio'r gwerth sylweddol y mae'r mân-werthwr hwn yn ei roi i'r Deyrnas Gyfunol. Gyda 99% o aelwydydd y wlad yn byw o fewn tair milltir i swyddfa bost, gall fod yn hawdd ystyried canghennau Swyddfa'r Post yn ddiwbys a'u cymryd yn ganiataol. Mae'r adroddiad hwn, a'r ymchwil sy'n sail iddo, yn atgoffa'r darllenydd o'r gwerth cymdeithasol y mae Swyddfa'r Post yn ei roi i'r rhai mwyaf agored i niwed a hefyd y cyfleustra y mae'n ei roi i ddefnyddwyr a busnesau. Mae'n cadarnhau ac yn ehangu ar ymchwil blaenorol gan NERA (2009), London Economics a YouGov (2016), a Public First (2020) a fu'n archwilio gwerth Swyddfa'r Post.

Hefyd, am y tro cyntaf, mae'r ymchwil hwn yn amlygu'r hyn nad oedd neb yn ei ddeall o'r blaen, sef rôl Swyddfa'r Post fel rhan o seilwaith economaidd sylfaenol y Deyrnas Gyfunol ac fel galluogwr busnesau bach a chanolig (BBaCh)<sup>2</sup>. Mae'n dangos fod Swyddfa'r Post, yn ogystal â chefnogi'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu, yn ysgogi ac yn hwyluso gweithgarwch economaidd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Gyda hyn mewn golwg, mae'r adroddiad yn strwythuro gwerth Swyddfa'r Post o amgylch pum thema graidd, gan roi sylw i'w harwyddocâd economaidd a'i gwerth cymdeithasol.

## Gyda chyrhaeddiad ffisegol digyffelyb na all llawer o fusnesau eraill ei hawlio, mae Swyddfa'r Post yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd pwysig ar draws pob gwlad a phob rhanbarth o'r Deyrnas Gyfunol.

- Ar lefel genedlaethol, mae Swyddfa'r Post yn creu effaith economaidd o **£4.7 biliwn y flwyddyn ar draws y Deyrnas Gyfunol**. Mewn gwirionedd, am bob £1 a werir gan Swyddfa'r Post, cynhyrchir £1.51 ychwanegol ar draws yr economi ehangach. Mae hynny'n fwy nag effaith economaidd Maes Awyr Heathrow.
- Mae rhwydwaith canghennau Swyddfa'r Post hefyd yn cefnogi cymunedau ar lefel leol. Arweiniodd gwariant canghennau Swyddfa'r Post at effaith economaidd gyfartalog ar economi'r DG o **£5.8 miliwn yr etholaeth seneddol**, sy'n cyfateb i gyfraniad economaidd o **£57 y person**. Wrth gloddio'n ddyfnach, gwelir bod 102 o etholaethau (allan o 650) yn gysylltiedig ag o leiaf £7.5 miliwn o effaith economaidd ledled y DG a 426 o etholaethau'n gysylltiedig ag effaith o £5 miliwn o leiaf. Er mwyn dangos ehangder yr effaith, mae'r dadansoddiad yn dangos fod o leiaf £2 filiwn o'r effaith economaidd ar y DG gyfan wedi tarddu o **bob etholaeth seneddol**.
- Mae Swyddfa'r Post yn cynnal tua **50,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn** ar draws y Deyrnas Gyfunol – a chymaint â 5,500 o swyddi mewn rhai rhanbarthau. Mae hynny'n cyfateb i nifer y gweithwyr llawn amser mewn dinas o faint Lincoln neu Gaerwysg.
- Mae Swyddfa'r Post yn rhan hanfodol o seilwaith economaidd sylfaenol y Deyrnas Gyfunol, gan weithredu fel galluogwr busnesau bach ar draws y pedair gwlad.
- Mae busnesau bach a chanolig yn dibynnu'n rheolaidd ar eu swyddfeydd post lleol er mwyn gallu gweithredu; mewn gwirionedd, mae bron i dri o bob 10 BBaCh yn defnyddio Swyddfa'r Post o leiaf unwaith yr wythnos – ac mae mwy na hanner yn ei defnyddio o leiaf unwaith y mis.
- Mae BBaChau yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfleustra y mae rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gynnig i'w busnesau - gwerth bron i £1 biliwn y flwyddyn yn gyffredinol i BBaChau, sy'n cyfateb i dros £175 y BBaCh y flwyddyn.
- Mae BBaChau yn defnyddio gwasanaethau post bron bob tro y byddant yn ymweld â'u swyddfa bost leol ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr hwylustod o gael swyddfa bost gerllaw.
- Gyda mwy na 5,000 o ganghennau banc wedi cau ers 2015, mae Swyddfa'r Post hefyd yn achubiaeth gynyddol i fusnesau bach a chanolig drwy ddarparu gwasanaethau bancio hanfodol, megis adneuo arian parod heb orfod cau'r siop a theithio i gael hyd i fanc mewn tref gyfagos (os oes yno fanc erbyn hyn).



2 yn fusnesau â llai na 250 o weithwyr.



## Mae Swyddfa'r Post yn gweithredu fel angor lleol i strydoedd mawr y Deyrnas Gyfunol, drwy ddenu cwsmeriaid a chynhyrchu gweithgarwch economaidd ehangach gerllaw

- Mae swyddfeydd post yn dod â llawer iawn o wariant ychwanegol i'r stryd fawr. Mewn gwirionedd, mae ymweliadau â swyddfeydd post yn cynhyrchu dros **£3 biliwn y flwyddyn o wariant mewn siopau a busnesau cyfagos**.<sup>3</sup> Mae'r gwariant ychwanegol hwn yn digwydd ledled y Deyrnas Gyfunol, ond mae'n arbennig o gryf yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr.
- Mae rhedeg swyddfa bost hefyd yn rhoi gwerth sylweddol i Bostfeistri, drwy gynhyrchu bron i **£1 biliwn o wariant gyda mân-werthwyr gwesteiol** o ganlyniad i'r cwsmeriaid sy'n cael eu denu gan eu swyddfa bost. Mewn gwirionedd, mae bron i hanner y Postfeistri yn credu na fyddai eu siop yn goroesi heb eu swyddfa bost.
- Mae swyddfeydd post yn bileri economaidd arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig, gyda mwy na chwarter y swyddfeydd post yn gweithredu fel y siop olaf yn y pentref, gan gynnal cymaint â 30 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn yn y canghennau hyn.

## Mae Swyddfa'r Post hefyd yn dod â gwerth cymdeithasol enfawr i gymunedau drwy ddarparu cyfleustra i ddefnyddwyr a meithrin balchder yn eu cymuned – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig

- Mae hanner y defnyddwyr ar draws y Deyrnas Gyfunol yn credu bod Swyddfa'r Post yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a'i bod yn bwysig i'w hunaniaeth – yn enwedig yr henoed a'r rhai ag anableddau, o ardaloedd gwledig neu ar incwm is.
- Mae swyddfeydd post yn arbennig o werthfawr i gymunedau gwledig, sy'n rhoi mwy o werth ar Swyddfa'r Post na'r ardaloedd trefol – gan ganolbwyntio'n benodol ar arian parod a gwasanaethau bancio, o ystyried diffyg dewisiadau cyfleus eraill.
- Mae Swyddfa'r Post hefyd yn darparu mynediad rhwydd a chyfleus i ddefnyddwyr trwy ddod ag ystod o wasanaethau o dan yr un to, gyda chwech o bob saith o ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolog yn credu ei bod yn bwysig i swyddfa bost fod gerllaw ac yn gyfleus i'w chyrhaedd. Mae defnyddwyr yn rhoi gwerth arbennig o uchel ar wasanaethau post Swyddfa'r Post.

## Wrth i'r Deyrnas Gyfunol ddod yn fwyfwy digidol, mae gwasanaeth wyneb yn wyneb Swyddfa'r Post yn parhau i fod yn hanfodol i'r grwpiau mwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu mewn cymdeithas

- Mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd **werth cymdeithasol blynyddol o bron i £4 biliwn i ddefnyddwyr**. Mae'n drawiadol bod gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post yn parhau i fod mor uchel, hyd yn oed yng nghanol argyfwng costau byw digynsail, sydd (oherwydd llai o allu i dalu) yn debygol o fod wedi lleihau prisiadau ymatebwyr yn sylweddol.
- Mae defnyddwyr sydd yn agored i niwed yn rhoi gwerth arbennig o uchel ar Swyddfa'r Post. Nid yn unig y mae'r defnydd yn uwch ymhlith cwsmeriaid sy'n agored i niwed, ond mae'r cwsmeriaid hynny hefyd yn fodlon talu oddeutu un gwaith a hanner y swm y byddai defnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed yn ei dalu i atal eu Swyddfa Bost agosaf rhag symud milltir i ffwrdd, er bod ganddynt incwm is.
- Gyda dirywiad banciau'r stryd fawr, Swyddfa'r Post yw prif gynheiliad seilwaith bancio'r Deyrnas Gyfunol ar gyfer unigolion bregus a llai cefnog. Mewn gwirionedd, mae'r rhai yn y graddau cymdeithasol is (C2DE) yn fodlon talu teirgwaith yn fwy na'r rhai yn y graddau uwch (ABC1) am y gwasanaethau hyn.



<sup>3</sup> Sylwch na ddylid ychwanegu'r ffigur hwn at gyfanswm effaith economaidd rhwydwaith Swyddfa'r Post gan na ellir ei briodoli'n uniongyrchol i Swyddfa'r Post.



# 1. Cefndir i'r ymchwil

Comisiynwyd London Economics gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig i asesu **effaith economaidd a gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post**.

- Aseswyd yr effaith economaidd drwy ddefnyddio cyfuniad o ddata mewnol Swyddfa'r Post, lluosyddion rhanbarthol a sectoraidd ac arolwg ar-lein o Bostfeistri. Mae methodoleg lawn ar gael yn Atodiad 1.
  - Aseswyd yr effaith economaidd drwy ystyried effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant<sup>4</sup> dros 11,500 o ganghennau Swyddfa'r Post a Swyddfa'r Post Cyfyngedig, yn ogystal â'r swyddi cyferth ag amser llawn (CALI) a gynhelir gan ganghennau Swyddfa'r Post a Swyddfa'r Post Cyfyngedig.
  - Roedd canlyniadau'r arolwg Postfeistri hefyd yn caniatáu i'r gwariant ychwanegol o fewn y siopau gael ei asesu.
- Aseswyd y gwerth cymdeithasol trwy ddau arolwg a weinyddwyd gan YouGov ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2022. Roedd y rhain yn arolygon o 2,044 o ddefnyddwyr a 1,017 o fusnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh). Mae methodoleg lawn ar gael yn Atodiad 2.
  - Canfuwyd gwerth cymdeithasol cyffredinol Swyddfa'r Post gan ddefnyddio dull prisio amodol, lle gofynnwyd i ymatebwyr am eu parodrwydd i dalu am rwydwaith Swyddfa'r Post yn gyffredinol.
  - Pennwyd gwerth cymdeithasol gwahanol wasanaethau Swyddfa'r Post drwy arbrofion dewis, a ddatgelodd barodrwydd ymatebwyr i dalu am bob gwasanaeth Swyddfa'r Post.
  - Aseswyd gwerth cymdeithasol y pellter i'r swyddfa bost agosaf a'r pellter i wasanaethau Swyddfa'r Post hefyd drwy'r arolygon, gan ddefnyddio prisiaid amodol ac arbrawf dewis.
  - Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol yn yr arolygon yn ymwneud â materion megis pwysigrwydd nodweddion Swyddfa'r Post a'r gwariant ychwanegol gan gwsmeriaid Swyddfa'r Post yn y stryd fawr.

- Cafeat pwysig i ganfyddiadau'r astudiaeth hon yw cyflwr economi'r Deyrnas Gyfunol pan gynhaliwyd yr arolygon. Yn y cyfnod hwn, roedd chwyddiant yn uwch nag a fu ers 40 mlynedd ac roedd gostyngiadau digynsail yn incwm gwario cartrefi, tâl rheolaidd mewn termau real, a hyder defnyddwyr. O ganlyniad, mae'n debygol bod llawer o'r canfyddiadau a gyflwynir drwy gydol yr astudiaeth hon yn amcangyfrif rhy isel o'u cymharu â'r hyn a fyddai wedi'i nodi mewn amgylchiadau economaidd mwy arferol.<sup>5</sup>

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r dadansoddiadau hyn ac yn cyflwyno gwerth Swyddfa'r Post yn seiliedig ar **bum thema allweddol**:

- Y darlun cyfan: rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu gwerth economaidd.
- Galluogi mentrau: y rhan anweladwy o seilwaith economaidd y Deyrnas Gyfunol.
- Economeg angori: rôl swyddfeydd post wrth gynnal y stryd fawr.
- Rhan annatod o fywyd yn y Deyrnas Gyfunol: Swyddfeydd post fel canolbwynt cymdeithasol i ddefnyddwyr yn y gymuned.
- Mwy na dim ond siop: yn cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu yn ein cymdeithas.

**Mae'n debygol bod llawer o'r canfyddiadau a gyflwynir drwy gydol yr astudiaeth hon yn danamcangyfrif o'u cymharu â chanlyniadau a fyddai wedi cael eu nodi dan amgylchiadau economaidd mwy arferol.**

<sup>4</sup> Cyflwynir diffiniad o effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn Adran 2.1.

<sup>5</sup> Cyflwynir trafodaeth bellach ar y mater hwn yn Adran 6.1 ac Atodiad 2.

## 2. Y darlun cyfan: rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu gwerth economaidd

### Canfyddiadau allweddol: rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu gwerth economaidd cenedlaethol

- Ar lefel genedlaethol, mae Swyddfa'r Post yn **creu effaith economaidd o £4.7 biliwn** y flwyddyn ar draws y Deyrnas Gyfunol. Mewn gwirionedd, am bob £1 a werir gan Swyddfa'r Post, cynhyrchir £1.51 ychwanegol ar draws yr economi ehangach. Mae hynny'n fwy nag effaith economaidd flynyddol Maes Awyr Heathrow.
- Hefyd, mae rhwydwaith canghennau Swyddfa'r Post yn cefnogi cymunedau ar lefel leol. Arweiniodd gwariant canghennau Swyddfa'r Post at effaith economaidd gyfartalog ar economi'r DG o £5.8 miliwn yr etholaeth seneddol, sy'n cyfateb i gyfraniad economaidd o £57 y pen. Roedd 102 o etholaethau (allan o 650) yn gysylltiedig ag o leiaf £7.5 miliwn o effaith economaidd ledled y DG a 426 o etholaethau'n gysylltiedig ag effaith o £5 miliwn o leiaf. I ddangos ehangder yr effaith, mae'r dadansoddiad yn dangos bod o leiaf £2 filiwn o effaith economaidd y DG gyfan yn tarddu o bob etholaeth seneddol.
- Mae Swyddfa'r Post yn cefnogi **tua 50,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar draws y Deyrnas Gyfunol** – a chynifer â 5,500 o swyddi mewn rhai rhanbarthau. Mae hynny'n cyfateb i nifer y gweithwyr llawn amser mewn dinas o faint Lincoln neu Gaerwysg.



### 2.1. Creu effaith economaidd uniongyrchol ar draws y Deyrnas Gyfunol

Swyddfa'r Post yw'r mân-werthwr mwyaf yn y Deyrnas Gyfunol – ac un o'r mwyaf yn Ewrop – diolch i'w rhwydwaith diguro o **fwy na 11,500 o ganghennau** ar draws y pedair gwlad. Yn wir, dim ond ychydig o fusnesau eraill a all hawlio presenoldeb ffisegol mor helaeth. Er bod y mwyafrif helaeth o ganghennau'n gweithredu ar sail masnachfrait, mae pob cangen yn cael ei chyflenwi, ei gwasanaethu a'i chefnogi gan Swyddfa'r Post – drwy gadwyn gyflenwi sylweddol, timau maes a chyfleusterau cymorth – fel y gall canghennau, yn eu tro, wasanaethu a chefnogi eu cymunedau.

Mewn gwirionedd, canfu dadansoddiad London Economics fod gwariant cyfun Swyddfa'r Post a'i rhwydwaith o ganghennau wedi creu **effaith economaidd gyffredinol o tua £4.7 biliwn** ym mlwyddyn ariannol 2021-22.<sup>6,7,8</sup>

I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd ychydig yn uwch na'r amcangyfrif o effaith economaidd Maes Awyr Heathrow ar ôl dychwelyd i amodau 'busnes fel arfer' wedi'r pandemig (Canolfan Ymchwil Economeg a Busnes, 2021).

Cynhyrchwyd bron i **£2 biliwn o werth economaidd** yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig a gwariant canghennau – boed hynny'n gyflogau gweithwyr Swyddfa'r Post, gwariant ar stoc ar gyfer canghennau Swyddfa'r Post, neu'r costau busnes eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, nid yw ffigur y gwariant uniongyrchol yn adlewyrchu effaith economaidd lawn Swyddfa'r Post. Mae gan y gwariant uniongyrchol hwn ddylanwad ehangach ledled economi'r Deyrnas Gyfunol, drwy gynhyrchu gweithgarwch economaidd ychwanegol, ac **amcangyfrifir bod gwerth hyn yn £2.8 biliwn**.

O fewn hyn, mae'r effaith anuniongyrchol yn amlygu effaith gwariant Swyddfa'r Post ar nwyddau a gwasanaethau ar draws ei gadwyni cyflenwi helaeth, sydd, yn ei dro, yn cael sgil-ffeithiau ehangach wrth i gyflenwyr uniongyrchol Swyddfa'r Post wneud pryniannau pellach ledled yr economi i ddiwallu eu hanghenion. Er enghraifft, os bydd Postfeistri yn prynu offer ar gyfer eu canghennau Swyddfa'r Post, yna bydd incwm yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cyflenwyr yr offer hwnnw, a fydd wedyn yn mynd ymlaen i brynu cynhyrchion i fodloni eu gofynion eu hunain (Weisbrod & Weisbrod, 1997).

6 Mae hyn yn cynnwys holl ganghennau Swyddfa'r Post a gwariant Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

7 Roedd yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar weithgarwch economaidd a ddigwyddodd yn ystod y pandemig Covid-19, felly gallai gynrychioli amcangyfrif rhy isel o gyfanswm yr effaith mewn cymhariaeth â blynyddoedd di-bandemig.

8 Mae esboniad manwl o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig ar gael yn Atodiad A1.1.



Yn ogystal â hyn, ceir effaith ysgogedig ehangach o ganlyniad i wariant staff Swyddfa'r Post a staff busnesau yng nghadwyn gyflenwi Swyddfa'r Post. Bydd yr unigolion hyn yn gwario eu hincwm drwy'r economi gyfan (fel ar eu strydoedd mawr lleol), sy'n cynhyrchu incwm cyflog ymhellach i weithwyr y busnesau eraill hynny, sydd wedyn yn gwario eu hincwm eu hunain ar nwyddau a gwasanaethau.<sup>9</sup>


O'r herwydd, nid yn unig y mae gwariant Swyddfa'r Post o fudd i'r rhai sy'n derbyn y gwariant hwnnw'n uniongyrchol (fel cyflenwyr a gweithwyr), ond mae hefyd yn helpu i gefnogi llu o fusnesau a swyddi ledled y DG drwy'r effaith gynyddol sy'n deillio o'r gwariant cychwynnol hwnnw. Mae'r effeithiau economaidd anuniongyrchol ac ysgogedig yn dangos cyfraniad anweledig Swyddfa'r Post i economi'r Deyrnas Gyfunol, nid yn unig o ran darparu gwasanaethau hanfodol yn uniongyrchol i aelwydydd a busnesau bach, ond hefyd wrth gefnogi cymunedau ledled y DG drwy ei weithrediadau sylfaenol.

## 2.2. Cynhyrchu gwerth economaidd ar lefel ranbarthol a lleol

Mae effaith economaidd Swyddfa'r Post ar draws y Deyrnas Gyfunol yn cael ei llywio'n bennaf gan ei rwydwaith eang o ganghennau: am bob £10 a werir gan Swyddfa'r Post, mae tua £8 yn deillio o'r rhwydwaith (£3.8 biliwn i gyd), gyda'r effaith sy'n weddill (£0.9 biliwn) yn cael ei gynhyrchu'n ganolog o wariant Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post o fwy na 11,500 o ganghennau bresenoldeb cryf ym mhob gwlad, rhanbarth ac etholaeth seneddol yn y Deyrnas Gyfunol, sy'n sbarduno twf economaidd ledled y DG. Mae'r ôl troed daearyddol hwn yn sylweddol ehangach na'r rhan fwyaf o fusnesau eraill, gan fod Swyddfa'r Post yn gwasanaethu pob cymuned ledled y DG. Cafodd hyn ei warantu a'i ddiogelu trwy feini prawf mynediad Swyddfa'r Post, lle mae'n rhaid (ymysg meini prawf eraill) i 99% o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol fod o fewn tair milltir i swyddfa bost (Clark a Booth, 2022). Mae'r ôl troed daearyddol hwn yn creu dosbarthiad effaith economaidd heb ei ail, sy'n helpu i gefnogi Postfeistri, mân-werthwyr gwesteiol a busnesau lleol ledled y DG.

**Mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post o fwy na 11,500 o ganghennau bresenoldeb cryf ym mhob gwlad, rhanbarth ac etholaeth seneddol yn y Deyrnas Gyfunol, sy'n sbarduno twf economaidd ledled y DG.**



### Effaith ranbarthol

Mae Swyddfa'r Post yn hybu gwerth economaidd ar draws pob un o ranbarthau'r Deyrnas Gyfunol, ac mae'r map cyntaf (a gyflwynir yn Ffigur 1) yn dangos yr effaith economaidd eang y mae rhwydwaith canghennau Swyddfa'r Post yn ei chael ar draws y Deyrnas Gyfunol. O ystyried ffigurau agrededig, cyfrannodd y rhwydwaith o ganghennau gyfartaledd o **£317 miliwn ym mhob rhanbarth**, gydag o leiaf £250 miliwn o effaith economaidd mewn wyth o 12 rhanbarth y Deyrnas Gyfunol ac o leiaf £100 miliwn o effaith economaidd ym mhob rhanbarth. Wrth i'r Llywodraeth geisio mynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol, mae effaith eang Swyddfa'r Post yn amlygu sut mae ei ganghennau eisoes yn cefnogi'r stryd fawr a busnesau lleol ym mhob rhan o'r DG.

Mewn geiriau eraill, roedd effaith economaidd rhwydwaith canghennau Swyddfa'r Post ar draws y Deyrnas Gyfunol yn 2021-22 yn cyfateb i rhwng £46 a £69 y pen ym mhob rhanbarth a gwlad yn y Deyrnas Gyfunol (gyda chyfartaledd o £57 y pen ledled y DG). Gan ystyried maint pob rhanbarth, mae'r canlyniadau hyn yn dangos pa mor gyson yw'r effaith gyfartalog y mae Swyddfa'r Post yn ei gael ar draws y Deyrnas Gyfunol – ynghyd ag ôl troed ehangach na bron pob busnes arall.

<sup>9</sup> Mae esboniad manylach o'r effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig ar gael yn Adran A1.1 yn Atodiad 1.

## Effaith leol

Mae Swyddfa'r Post hefyd yn creu effaith economaidd sylweddol ar lefel leol, yn ogystal â rhanbarthol. Dangosir ehangder yr effaith hon gan y ffaith bod 18 cangen ar gyfartaledd ym mhob etholaeth seneddol yn y DG, gydag o leiaf 10 cangen ar agor ac yn weithredol mewn 561 etholaeth seneddol - a bod gan bob etholaeth yn y DG o leiaf bum cangen agored a gweithredol ym mis Mawrth 2022.


Dangosir ehangder effaith Swyddfa'r Post yn Ffigur 2, lle gwelir effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant canghennau Swyddfa'r Post ar economi'r Deyrnas Gyfunol sy'n tarddu o bob etholaeth seneddol.<sup>10</sup> Arweiniodd gwariant canghennau Swyddfa'r Post at effaith economaidd gyfartalog ar economi'r DG o **£5.8 miliwn yr etholaeth seneddol**, sy'n cyfateb i gyfraniad economaidd o **£57 y person ar gyfartaledd**. Roedd 102 o etholaethau (allan o 650) yn gysylltiedig ag o leiaf £7.5 miliwn o effaith economaidd ledled y DG a 426 o etholaethau'n gysylltiedig ag effaith o £5 miliwn o leiaf. Er mwyn dangos ehangder yr effaith, mae'r dadansoddiad yn dangos bod o leiaf £2 filiwn o effaith economaidd yn tarddu o bob etholaeth seneddol.

Mae Swyddfa'r Post yn cael effaith y pen arbennig o gryf sy'n tarddu o etholaethau gwledig yn yr Alban (fel Ross, Yr Ynys Hir a Lochaber, ac Argyll a Bute) a'r Gogledd Orllewin (fel Westmorland a Lonsdale, a Penrith a'r Goror).

**Ffigur 1 Effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant canghennau Swyddfa'r Post ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Gyfunol, fesul person ac yn gyffredinol, 2021-22**

### Effaith economaidd y person, £

- £60 – £70
- £50 – £60
- £40 – £50



Sylwer: Rhannwyd cyfanswm y ffigurau effaith economaidd ag amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 ar gyfer rhanbarthau'r Deyrnas Gyfunol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b) i gael ffigurau fesul person. Mae'r lliwio'n cyfeirio at yr effaith economaidd fesul person sy'n digwydd yn y rhanbarth hwnnw. Er enghraifft, mae effaith economaidd Gogledd Orllewin Lloegr yn ystyried effaith canghennau ym mhob rhanbarth (gan gynnwys y Gogledd Orllewin) ar weithgaredd economaidd y Gogledd Orllewin.


**Ffynhonnell:** Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar ddata Swyddfa'r Post a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021b). Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, data OS, Post Brenhinol, Gridlink, LPS (Gogledd Iwerddon), ONS, data NISRA, data NRS a data Arolwg Ordans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

<sup>10</sup> Mewn geiriau eraill, mae hyn yn cynrychioli'r budd y mae canghennau ym mhob etholaeth yn ei roi i economi'r Deyrnas Gyfunol gyfan. Er y bydd cyfran sylweddol o'r effaith honno yn yr etholaeth ei hun, bydd cyfran fawr yn gorlifo i ardaloedd eraill o'r wlad drwy effaith y gwariant yn crychdonni.

**Ffigur 2** Effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant canghennau Swyddfa'r Post fesul person sy'n tarddu o bob etholaeth seneddol yn y Deyrnas Gyfunol

Effaith economaidd y person, £

- Dros £100
- £80 – £100
- £60 – £80
- £40 – £60
- £20 – £40



Sylwer: Rhannwyd cyfanswm y ffigurau effaith economaidd ag amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 ar gyfer rhanbarthau'r Deyrnas Gyfunol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b) i gael ffigurau fesul person. Mae'r map yn cyfeirio at wariant uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig mewn perthynas â gwariant uniongyrchol sydd yn tarddu o'r etholaeth honno. Er enghraifft, byddai'r arlliwio yn Chesterfield yn berthynol i effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant gan ganghennau yn Chesterfield ar weddill y Deyrnas Gyfunol, yn hytrach nag effaith canghennau ledled y Deyrnas Gyfunol ar Chesterfield.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar ddata Swyddfa'r Post a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021b). Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, data OS, Post Brenhinol, Gridlink, LPS (Gogledd Iwerddon), ONS, data NISRA, data NRS a data Arolwg Ordians © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

### 2.3. Cynnal swyddi a chyflogaeth ar draws y pedair gwlad

Yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, mae Swyddfa'r Post a'i rwydwaith o ganghennau yn cefnogi ac yn cynnal bron i 50,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI) ledled y Deyrnas Gyfunol. I roi'r nifer mewn cyd-destun, mae tua'r un nifer o weithwyr amser llawn ag sydd mewn dinas o faint Lincoln neu Gaerwysg (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a).

Mae tua hanner y swyddi hyn yn ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig (tua 3,100<sup>11</sup>) neu Bostfeistri a'r rhai sy'n gweithio mewn canghennau Swyddfa'r Post ar sail masnachfrait. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys Postfeistri, rheolwyr rhanbarthol ac ardal, a gweithwyr ym mhrif swyddfa Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Yn y cyfamser, mae hanner arall y rhain yn cael eu cynnal ledled economi'r Deyrnas Gyfunol drwy'r effaith anuniongyrchol ac ysgogedig (effaith crychdonni) sy'n gysylltiedig â gwariant canghennau Swyddfa'r Post a Swyddfa'r Post Cyfyngedig ar staffio a gwariant arall.

Mae'r mwyafrif helaeth (90%) o'r swyddi CALI a gefnogir gan Swyddfa'r Post yn deillio o'i rwydwaith o ganghennau, gan amlygu unwaith eto ei effaith economaidd sylweddol ar draws y Deyrnas Gyfunol. At hynny, mae'r effaith gadarnhaol ar gyflogaeth i'w weld ledled y DG, gan fod Swyddfa'r Post nid yn unig yn cefnogi swyddi o fewn canghennau, ond hefyd yn cynnal swyddi mewn busnesau lleol oherwydd y gwariant anuniongyrchol ac ysgogedig a amlinellir uchod. Mae cyrhaeddiad helaeth Swyddfa'r Post yn golygu ei fod yn helpu i gefnogi 4,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn naw o 12 rhanbarth y Deyrnas Gyfunol, ac o leiaf 1,900 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ym mhob rhanbarth (gweler Ffigur 3).

### 2.4. Cnoi cil

Gyda swyddfa bost mewn bron pob tref a phentref ar draws y Deyrnas Gyfunol, mae Swyddfa'r Post yn sefydliad hollbwysig yn y DG – mor hollbresennol a sefydledig nes ei fod bron yn anweledig. Mae'r dadansoddiad hwn, fodd bynnag, yn dod â'i werth economaidd i ffocws clir ac yn tanlinellu'r ffaith bod swyddfeydd post yn dal i fod o bwys.


Nid yn unig y mae cyfraniad Swyddfa'r Post i economi'r Deyrnas Gyfunol yn sylweddol, sef bron i **£5 biliwn y flwyddyn, ond, yn hollbwysig, mae wedi'i wasgaru'n eang ar draws pob rhanbarth a phob etholaeth yn y Deyrnas Gyfunol** – nodweddd nad yw llawer o fusnesau yn gallu ei rhannu. Wrth i'r Llywodraeth geisio mynd i'r afael â gwahaniaethau ac anghydraddoldebau rhanbarthol, efallai y bydd yn ystyried sut y gall seilwaith canghennau ar draws y pedair gwlad chwarae rhan wrth gyflawni'r nod hwnnw.

11 Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio yng ngweinyddiaeth ganolog Swyddfa'r Post, o fewn cadwyn gyflenwi Swyddfa'r Post, ar gyfer canghennau a reolir yn uniongyrchol, Payzone ac Yswiriant Swyddfa'r Post.

**Ffigur 3 Swyddi CALI a gefnogir gan Swyddfa'r Post yn ôl rhanbarth, 2021-22**

**Swyddi CALI a gefnogir**

- 5,000 – 6,000
- 4,000 – 5,000
- 3,000 – 4,000
- 2,000 – 3,000
- Llai na 2,000



Sylwer: Rhannwyd cyfanswm y ffigurau effaith economaidd ag amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 ar gyfer rhanbarthau'r Deyrnas Gyfunol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b) i gael ffigurau fesul person. Mae'r graddliwio yn cyfeirio at nifer y swyddi CALI a gefnogir yn y rhanbarth hwnnw.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar ddata Swyddfa'r Post a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021b). Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, data OS, Post Brenhinol, Gridlink, LPS (Gogledd Iwerddon), ONS, data NISRA, data NRS a data Arolwg Ordians © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.





### 3. Galluogi menter: y rhan nas gwelir o seilwaith economaidd y Deyrnas Gyfunol

#### Canfyddiadau allweddol: y rhan nas gwelir o seilwaith economaidd y Deyrnas Gyfunol

- Mae busnesau bach a chanolig yn dibynnu'n rheolaidd ar eu swyddfeydd post lleol i weithredu - mewn gwirionedd, mae bron i dri o bob 10 BBaCh yn defnyddio Swyddfa'r Post o leiaf unwaith yr wythnos - ac mae mwy na hanner yn ei defnyddio o leiaf unwaith y mis.
- Mae BBaChau yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfleustra y mae rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gynnig i'w busnesau – gwerth **bron i £1 biliwn** y flwyddyn i gyd i BBaChau, sy'n cyfateb i dros £175 y BBaCh y flwyddyn.
- Mae BBaChau yn defnyddio gwasanaethau post bron bob tro y byddant yn ymweld â'u swyddfa bost leol ac yn gwerthfawrogi'n fawr hwylustod cael swyddfa bost gerllaw.
- Gyda mwy na 5,000 o ganghennau banc wedi cau ers 2015, mae Swyddfa'r Post hefyd yn **achubiaeth gynyddol i fusnesau bach a chanolig** drwy ddarparu gwasanaethau bancio hanfodol, megis adneuo arian parod heb fod angen cau siop a theithio i ddod o hyd i fanc mewn tref gyfagos (os oes banc yn dal i fod yno).



### 3.1. Galluogi busnesau bach a diwallu eu hanghenion mwyaf hanfodol

Mae Swyddfa'r Post yn cefnogi ac yn cynnal economi'r Deyrnas Gyfunol drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol i fentrau bach a chanolig (BBaCh)<sup>12</sup> i'w helpu i redeg eu busnesau a sbarduno twf economaidd – boed hynny'n berchennog siop yn adneuo ei dderbyniadau ar ddiwedd y dydd neu werthwr marchnad yn postio cynnyrch i gwsmer.

Mae'r ymchwil hwn yn dangos fod busnesau'n dibynnu'n gyson iawn ar Swyddfa'r Post. Mewn gwirionedd, mae **bron i dri o bob 10 (28%) o fusnesau bach a chanolig yn defnyddio rhwydwaith Swyddfa'r Post o leiaf unwaith yr wythnos**, tra bod mwy na hanner (51%) yn defnyddio'r rhwydwaith canghennau o leiaf unwaith y mis – a chwech o bob saith (86%) yn ei ddefnyddio o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r ffigurau hyn yn dangos sut mae gwasanaethau Swyddfa'r Post yn galluogi ac yn cefnogi gweithrediadau busnes BBaChau drwy'r Deyrnas Gyfunol gyfan – yn wir mae'n debygol taw ychydig yw nifer y sefydliadau unigol eraill y mae busnesau bach yn dibynnu arnynt mor aml. Yn bwysig, mae Swyddfa'r Post yn cefnogi'r busnesau bach hynny sy'n ei ddefnyddio bob wythnos (mae'n debygol o fod yn wasanaeth hanfodol iddynt) yn ogystal â'r busnesau hynny sy'n ei ddefnyddio'n anaml, ond mae'n gyfleus ac yn hawdd ei ddefnyddio pan fo angen.

Mae arolygon yn amlwg yn cefnogi'r farn hon, gyda busnesau bach a chanolig yn rhoi gwerth sylweddol ar rwydwaith canghennau Swyddfa'r Post, yn enwedig y cyfleustra o gael cangen yn agos at eu busnes. Datgelodd ein hymchwil fod **gwerth rhwydwaith Swyddfa'r Post i BBaChau yn agos i £1 biliwn (£984m) y flwyddyn**.<sup>13</sup> Mewn geiriau eraill, mae BBaChau yn fodlon talu £176 y flwyddyn (ychydig o dan £15 y mis) er mwyn cynnal a chadw rhwydwaith Swyddfa'r Post. Mae'r gwerth cymdeithasol hwn (gwerth rhwydwaith Swyddfa'r Post nad yw'n rhwym wrth brisiau) yn arbennig o uchel ar gyfer mentrau bach (10 i 49 o weithwyr), a oedd yn rhoi gwerth o £23 y mis ar y rhwydwaith.

Mae BBaChau yn ystyried cyfleustra yn nodwedd arbennig o bwysig o'u swyddfa bost leol oherwydd bod **bron i chwech o bob saith (85%) o BBaChau yn ystyried bod cael Swyddfa'r Post gerllaw ac yn gyfleus yn bwysig iddynt**. Mae pwysigrwydd pellter yn cael ei adlewyrchu ymhellach gan y ffaith y byddai busnesau bach a chanolig yn fodlon talu £25 ychwanegol y flwyddyn ar gyfartaledd i atal eu swyddfa bost leol rhag symud milltir ymhellach i ffwrdd. Mae BBaChau sydd â swyddfa bost yn agos (llai na milltir i ffwrdd) yn gwerthfawrogi pellter milltir ychwanegol yn uwch, sef £59 y flwyddyn (mwy na dwbl y ffigur ar gyfer y BBaCh cyfartalog).<sup>14</sup> Adlewyrchir hwylustod Swyddfa'r Post hefyd am ei bod yn siop-un-stop ar gyfer busnesau bach a chanolig, gyda bron i saith o bob 10 (68%) o BBaChau yn credu ei bod yn bwysig bod Swyddfa'r Post yn darparu ystod o wasanaethau mewn un lle.

<sup>12</sup> Wedi'i ddiffinio fel busnesau â llai na 250 o weithwyr.

<sup>13</sup> Mae'r canlyniad hwn yn defnyddio model prasio amodol penagored. Rhoddir manylion ynghylch pam y blaenoriaethwyd y model hwn a sut y cafwyd gwerth cymdeithasol blynyddol rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd yn Atodiad 1.

<sup>14</sup> Nid yw hyn yn syndod, gan fod busnesau sydd eisoes yn gymharol bell o'u Swyddfa Bost agosaf eisoes yn gorfod teithio'n bell, ac felly mae milltir ychwanegol yn gwneud llai o wahaniaeth, tra byddai symud ymhellach i ffwrdd yn effeithio'n fawr ar y rheini sydd â Swyddfa'r Post gerllaw oherwydd yr effaith negyddol a geid ar eu busnes.

### 3.2. Sicrhau bod gwasanaethau post a pharseli gerllaw ac yn gyfleus wrth i farchnad e-fasnach y Deyrnas Gyfunol ffynnu

Efallai nad yw'n syndod, o ystyried ei berthynas hanesyddol â'r Post Brenhinol, taw'r gwasanaeth post yw'r gwasanaeth Swyddfa'r Post sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi fwyaf gan BBaChau, gyda bron i dri o bob 10 (28%) o BBaChau yn defnyddio gwasanaeth post mewn swyddfa bost o leiaf unwaith yr wythnos. a mwy na hanner (52%) yn nodi eu bod yn ei ddefnyddio o leiaf unwaith y mis. Mae hyn yn nodweddiadol iawn o'r diwydiant manwerthu, gyda bron i hanner (47%) y BBaChau manwerth yn defnyddio gwasanaeth post mewn swyddfa bost o leiaf unwaith yr wythnos a naw o bob 10 yn ystyried bod darparu gwasanaeth post yn eu swyddfa bost leol yn bwysig.

Mae'r dystiolaeth hon yn amlygu ymhellach sut, wrth i siopa ar-lein barhau i gynyddu, y mae gwasanaethau post Swyddfa'r Post yn gynyddol yn gweithredu fel pont rhwng yr economi ar-lein ac all-lein. Gall busnesau bach ddefnyddio eu swyddfa bost leol i anfon cynhyrchion yn hawdd at eu cwsmeriaid, tra gall cwsmeriaid ddewis eu swyddfa bost fel cyrchfan ar gyfer eu harchebion ar-lein fel y gallant gasglu a phostio eitemau mewn lle ac ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy. Mewn gwirionedd, roedd gwerthiannau rhyngwrdd yn cyfrif am un o bob pedwar o'r holl werthiannau manwerth yn y Deyrnas Gyfunol ym mis Gorffennaf 2022, o'i gymharu ag ychydig o dan un o bob 10 ddegawd ynghynt (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022d). Mae'n bosibl bod marchnadoedd ar-lein wedi cyfrannu at y twf hwn, gyda nifer y busnesau sy'n eu defnyddio wedi dyblu yn y pum mlynedd diwethaf (Shieldpay, 2022). Mae'r marchnadoedd hyn wedi golygu y gall unrhyw un greu cynhyrchion gartref a'u gwerthu ar-lein, o ystyried bod ganddynt fodd i'w dosbarthu. Mae mynediad hawdd at wasanaethau post yn hanfodol i microfusnesau neu unigolion sy'n defnyddio'r llwyfannau hyn, sy'n golygu bod Swyddfa'r Post mewn sefyllfa unigryw i gynorthwyo llwyddiant y gwerthwyr marchnad-ar-lein hyn.

**Wrth i siopa ar-lein barhau i gynyddu, mae gwasanaethau post Swyddfa'r Post yn gynyddol yn gweithredu fel pont rhwng yr economi ar-lein ac all-lein. Gall busnesau bach ddefnyddio eu swyddfa bost leol i anfon cynhyrchion yn hawdd at eu cwsmeriaid, tra gall cwsmeriaid ddewis eu swyddfa bost fel cyrchfan ar gyfer eu harchebion ar-lein.**

Er bod siopa ar-lein eisoes yn tyfu cyn pandemig Covid-19, mae'n amlwg bod y pandemig wedi cyflymu'r duedd hon. Cynyddodd nifer y parseli 8% yn 2019-2020, ac yna cafwyd cynnydd llawer mwy, sef 48% yn 2020-2021 (Ofcom, 2021). Roedd y busnesau hynny a ddatblygodd fentrau dosbarthu busnes-i-ddefnyddiwr mewn sefyllfa dda i ymateb i'r amgylchiadau newidiol a'r cynnydd sydyn hwn yn y galw am siopa ar-lein (Ofcom, 2021). Swyddfeydd post oedd un o'r ychydig fusnesau a allai aros ar agor ar gyfer gweithrediadau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig, ac mae rhwyddineb mynediad a hwylustod y swyddfa bost leol yn debygol o fod wedi helpu busnesau i ymgyswngu â gwerthu ar-lein. Daeth rôl Swyddfa'r Post fel cyfrwng sy'n cysylltu defnyddwyr a busnesau yn bwysicach fyth yn gyflym iawn yn ystod 2020.

Mae cipolwg ar ddarpariaeth Drop and Go Swyddfa'r Post ar gyfer BBaChau yn ystod pandemig Covid-19 yn amlygu'r rôl gynyddol hon. Mae Drop and Go yn wasanaeth cyflym sy'n golygu bod perchnogion busnes yn gallu gadael eu post wrth gownteri Swyddfa'r Post heb giwio, sganio, pwyso na labelu, a chanolbwyntio ar wasanaethu eu cwsmeriaid. Wrth i'r cyfnod clo ddod i rym yn y Deyrnas Gyfunol, gwelodd Swyddfa'r Post gynnydd o 45% rhwng 2019-20 a 2020-21 yn nifer y trafodion Drop and Go, gyda thair eitem neu fwy ym mhob basged, sy'n awgrymu bod Swyddfa'r Post yn gyfrwng pwysig i BBaChau o ran cael cynnyrch i'w cwsmeriaid ar adeg pan oedd y stryd fawr fel arall yn dawel.

## Astudiaeth achos: cefnogi busnes lleol yn Amwythig

Mae Swyddfa'r Post yn bwysig i fusnesau bach a chanolig ledled y DG ac yn helpu i bontio'r bwlch rhwng eu heconomi ffisegol a digidol drwy ei wasanaethau post. Boed yn werthwyr ar-lein neu'n fân-werthwyr lleol ar y stryd fawr, mae llawer o fusnesau bach yn dibynnu'n rheolaidd ar eu swyddfa bost leol i gael eitemau allan i'w cwsmeriaid, yn enwedig wrth i siopa ar-lein ffynnu yn y DG.

Enghraifft wych o hyn yw gwasanaeth Drop and Go Swyddfa'r Post, sy'n galluogi busnesau bach i adael parseli ac eitemau post eraill wrth gownter swyddfa bost. Mae hyn yn golygu nad oes angen ciwio neu lenwi llawer o ffurflenni a gallant ganolbwyntio ar yr hyn y mae perchnogion busnes yn ei wneud orau, sef gwasanaethu eu cwsmeriaid.

Gwelodd y Postfeistr yn Swyddfa Bost Abbey Foregate, Caroline Jones, botensial y gwasanaeth o'r cychwyn cyntaf fel modd i arbed amser i'w chwsmeriaid busnes lleol ac fel ffynhonnell incwm i'w changen.

Heddiw, mae cwsmeriaid Drop and Go Caroline yn cynnwys busnesau lleol mawr, yn ogystal â mentrau llai sydd newydd ddechrau.

Dywedodd: "Rwyf wedi bod yma ers 16 mlynedd ac wedi bod yn ymwneud â Drop and Go ers iddo gael ei dreialu. Rwyf wedi cynyddu fy nhrosiant flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd fy mod wedi gweithio'n galed ac wedi mireinio fy musnes.

"Rwy'n gwneud yn siŵr bod fy holl gwsmeriaid Drop and Go yn cael yn union yr hyn sydd ei angen arnyh nhw, ac maen nhw'n ymddiried yn ofod i roi cyngor da. Mae gan Drop and Go botensial enfawr ar gyfer Swyddfeydd Post, os ydych chi'n fodlon gwneud y gwaith angenrheidiol.

**"Rwyf wedi gwneud llawer o ymdrech i ddod o hyd i, adeiladu a chynnal fy mherthynas â chwsmeriaid, a thrwy gynnig gwasanaeth da, rwyf wedi gallu eu cadw. Rwy'n falch o'r hyn a gafodd ei gyflawni."**

Yn ogystal â'i fod yn ffrwd incwm allweddol i'w busnes, roedd Caroline yn hoffi'r ffaith bod Drop and Go wedi caniatáu i'w busnes lleol gefnogi busnesau lleol eraill, boed yn fusnesau mawr neu'n fentrau newydd.

"Rwyf wrth fy modd â'r ffaith y gallwn fod yn hollbwysig i lwyddiant busnesau llai. Rwy'n gweld hyn yn wythnosol: mae pobl sydd newydd ddechrau busnes yn dod i mewn. Byddan nhw'n edrych ar gystadleuwyr, ac yn gweld taw ni yw'r dewis gorau."

Mae hyn, yn rhannol, yn esbonio pam mae BBaChau yn gwerthfawrogi darpariaeth gwasanaethau post gan Swyddfa'r Post bron deirgwaith yn fwy nag unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall. Roedd gwasanaethau post yn arbennig o bwysig i fentrau bach (y rhai â rhwng 10 a 49 o weithwyr), a oedd yn rhoi gwerth o fwy na £25 y mis ar y gwasanaethau post a ddarperir mewn swyddfeydd post. Dywedodd mwy na phedwar o bob pump o'r BBaChau fod mynediad at wasanaethau post yn eu Swyddfa Bost leol yn bwysig.

Mae BBaChau yn rhoi gwerth arbennig ar gyfleustra gwasanaethau post, gyda mwy nag wyth o bob 10 (84%) o BBaChau yn nodi ei bod yn bwysig bod gwasanaethau post ar gael gerllaw (ni waeth gan bwy y cânt eu darparu), a'r un gyfran yn nodi pa mor bwysig yw cael swyddfa bost gerllaw ar gyfer gadael a chasglu parseli. Dywedodd ymatebwyr hefyd ei bod yn hollbwysig fod gwasanaethau post yn cael eu darparu gan frand hysbys neu frand y gellir ymddiried ynddo (76%) a'u bod yn yr un lleoliad â gwasanaethau eraill (55%). Mae'r cyfuniad o'r materion craidd o ymddiriedaeth a chyfleustra yn dangos bod Swyddfa'r Post mewn sefyllfa dda ac unigryw i ddarparu gwasanaethau post i BBaChau; mae'n bodoli ers amser hir ac mae ganddo rwydwaith eang o ganghennau sy'n cynnig gwasanaethau lluosog mewn un man.



### 3.3. Diogelu mynediad at arian parod i fusnesau wrth i fanciau ddiflannu

Fodd bynnag, mae gwerth Swyddfa'r Post i BBaChau yn golygu llawer mwy na chynhyrchion post yn unig. Mae gwasanaethau arian parod a bancio yn gynyddol bwysig i fusnesau bach a chanolig o ran cefnogi mynediad hanfodol at arian parod, gan alluogi busnesau i barhau i wasanaethu pob cwsmer, waeth beth fo'u dewisiadau talu. Mewn gwirionedd, datgelodd yr ymchwili hwn fod **bron i ddau o bob pump o fusnesau bach a chanolig (39%) yn credu bod cael gwasanaethau arian parod a bancio mewn swyddfeydd post yn bwysig**, a chanfu arolwg o BBaChau yn 2021 gan YouGov (ar ran Swyddfa'r Post) fod bron i dri o bob 10 (28%) o fusnesau bach yn defnyddio arian parod o leiaf bob wythnos.

Wedi'i sefydlu yn 2017, mae Fframwaith Bancio Swyddfa'r Post yn fframwaith safonol ar gyfer sefydliadau ariannol y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys 30 o fanciau masnachol, sy'n caniatáu i 95% o gwsmeriaid bancio busnes ddefnyddio unrhyw swyddfa bost ar gyfer gwasanaethau bancio sylfaenol - gan gynnwys codi neu adneuo arian parod, talu sieciau i mewn a chael balansau. I ddangos maint y gwasanaethau bancio a ddarperir, **hwylusodd Swyddfa'r Post tua 9.1 miliwn o adneuo arian parod busnes (gwerth bron i £11 biliwn)** a chodwyd arian parod busnes tua 1.2 miliwn o weithiau (gwerth bron i £300 miliwn) yn 2021. Ers hynny, mae nifer a gwerth trafodion wedi cynyddu ymhellach. Mewn gwirionedd, mae busnesau wedi adneuo dros £1 biliwn dros gownteri swyddfeydd post bron bob mis yn 2022.

Mae darpariaeth gwasanaethau bancio Swyddfa'r Post wedi dod yn fwyfwy pwysig i BBaChau wrth i fwy o ganghennau banc gael eu cau. Ledled y Deyrnas Gyfunol, mae mwy na 5,000 o ganghennau banc wedi cau ers 2015, gyda llawer o ardaloedd heb fynediad at wasanaethau arian parod a bancio mwyach yn absenoldeb swyddfa bost. Ym mis Medi 2022, roedd wyth etholaeth seneddol (gyda chyfanswm o oddeutu 797,000<sup>15</sup> o oedolion preswyl) heb ganghennau banc masnachol a 27 o etholaethau (yn cynrychioli 2.59 miliwn o drigolion sy'n oedolion) gydag un gangen yn unig. **Roedd dros hanner (347) yr holl etholaethau wedi colli o leiaf hanner eu canghennau** (Which?, 2022).

Mae'r cau hyn yn cael effaith benodol ar fusnesau bach, gydag ymchwili YouGov yn 2021 yn dangos y byddai bron i un o bob pedwar busnes bach a chanolig yn cael trafferth pe na bai modd defnyddio arian parod, bod bron i draean yn teimlo effaith uniongyrchol y banciau'n cau a bod saith o bob 10 yn teimlo bod arian parod yn bwysig i ddyfodol y stryd fawr yn y Deyrnas Gyfunol.

Gyda seilwaith bancio ffisegol yn dirywio ar draws y Deyrnas Gyfunol, mae rhwydwaith Swyddfa'r Post o fwy na 11,500 o ganghennau wedi dod yn hollbwysig o ran darparu mynediad at arian parod i fusnesau bach a chefnogi twf economaidd ledled y DG. Adlewyrchwyd pwysigrwydd gwasanaethau bancio i BBaChau yng nghanlyniadau arolwg BBaChau 2022.

Arian parod a bancio oedd y gwasanaeth a ddefnyddiwyd ail amlaf gan BBaChau ac fe'i nodwyd fel y gwasanaeth ail bwysicaf gan BBaChau (y tu ôl i wasanaethau post). Mae bron i un o bob dau BBaCh wedi defnyddio gwasanaethau arian parod a bancio yn eu swyddfa bost leol, gyda thua 15% yn defnyddio'r gwasanaethau hyn o leiaf unwaith y mis.

Hefyd, rhoddodd busnesau bach a chanolig y gwerth ail uchaf i wasanaethau arian parod a bancio, sef tua **2.5 gwaith yn fwy na gwerth y gwasanaeth a oedd nesaf o ran gwerth**. Roedd y gwerth yn arbennig o uchel gan fentrau bach (10 i 49 o weithwyr), a oedd yn rhoi gwerth o fwy na £10 y mis ar eu hargaeledd. Mae'n debyg bod y gwerth uchel ar gyfer gwasanaethau arian parod a bancio yn adlewyrchu'r diffyg dewisiadau amgen i Swyddfa'r Post ar gyfer gwasanaethau bancio: dim ond dau o bob pump o fusnesau bach a chanolig a deimlai fod ganddynt ddewisiadau amgen cyfleus yn lle Swyddfa'r Post ar gyfer arian parod a bancio.

Mae Swyddfa'r Post hefyd yn mynd i'r afael â'r hyn sydd orau gan BBaChau o ran cyflawni eu hanghenion bancio sylfaenol. Dywedodd mwy na thri chwarter y busnesau bach a chanolig ei bod yn bwysig i wasanaethau bancio sylfaenol fod ar gael yn agos i'w cartref neu weithle, a dim ond rhwydwaith eang Swyddfa'r Post sydd yn gwarantu hynny ar hyn o bryd, yn enwedig yng nghyd-destun cau canghennau banc. Er gwaethaf y cynnydd mewn bancio ar-lein, mae bron i dri o bob pump o fusnesau bach a chanolig o'r farn bod darparu gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb yn bwysig. Mae Swyddfa'r Post hefyd yn hwyluso mynediad at wasanaethau bancio ochr yn ochr â gwasanaethau busnes eraill (fel gwasanaethau post), sy'n cael ei ystyried yn bwysig i ychydig dros hanner (54%) y BBaChau.

### 3.4. Cnoi cil

Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd newidiadau aruthrol yn economi'r Deyrnas Gyfunol. Wrth i e-fasnach dyfu, mae'r galw am barseli wedi cynyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, tra bod dirywiad y bancio manwerth traddodiadol yn tansellio'r defnydd o arian parod yn gynyddol. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Post yn gymar ffisegol mewn byd cynyddol ddigidol, drwy bontio'r bwlch rhwng yr economi ar-lein ac all-lein. Er ei fod yn galluogi'r economi digidol drwy gefnogi busnesau i anfon cynhyrchion at eu cwsmeriaid, mae hefyd yn hanfodol wrth gefnogi busnesau bach a chanolig i gael gafael ar arian parod a'i drafod. Gyda swyddfa bost ym mhob cymuned, mae'r ymchwili hwn yn dangos bod Swyddfa'r Post yn darparu gwasanaeth ffisegol a chyrrhaeddiad sydd yn werth bron i £1 biliwn i'r BBaChau.

**Mae Swyddfa'r Post yn gymar ffisegol mewn byd cynyddol ddigidol, drwy bontio'r bwlch rhwng yr economi ar-lein ac all-lein.**

<sup>15</sup> Gweler Barton (2021) ar gyfer poblogaeth ganol-blwyddyn 2020 fesul etholaeth.



## 4. Economeg angori: rôl swyddfeydd post wrth gynnal y stryd fawr

### Canfyddiadau allweddol: Rôl swyddfeydd post wrth gynnal y stryd fawr

- Mae swyddfeydd post yn dod â llawer iawn o wariant ychwanegol i'r stryd fawr. Mewn gwirionedd, mae ymweliadau â swyddfeydd post yn cynhyrchu mwy na £3 biliwn y flwyddyn o wariant mewn siopau a busnesau cyfagos.  
Mae'r gwariant ychwanegol yn digwydd ledled y Deyrnas Gyfunol, ond mae'n arbennig o gryf yng Ngogledd Lwerddon, Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr.
- Mae rhedeg swyddfa bost hefyd yn rhoi gwerth sylweddol i Bostfeistri, trwy gynhyrchu bron i £1 biliwn o wariant gyda mân-werthwyr gwesteiol o ganlyniad i'r cwsmeriaid y mae eu swyddfa bost yn eu denu. Mewn gwirionedd, mae bron i hanner y Postfeistri yn credu na fyddai eu siop yn goroesi heb eu swyddfa bost.
- Mae swyddfeydd post yn bileri economaidd arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig, gyda mwy na chwarter y swyddfeydd post yn gweithredu fel y siop olaf yn y pentref, gan gynnal cymaint â 30 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn yn y canghennau hyn.

### 4.1. Denu pobl i'n strydoedd mawr

Yn ogystal â'i gyfraniad uniongyrchol i economïau cymunedau lleol (a amlinellir yn Adran 5), mae gan Swyddfa'r Post hefyd rôl ehangach, anuniongyrchol yn ysgogi gweithgarwch economaidd lleol ac felly'n gweithredu fel angor i'r stryd fawr.

Ni ellir cwblhau rhai tasgau ar-lein – o ddychwelyd eitemau i adneuo arian parod – sy'n golygu bod angen taith i'r stryd fawr leol. Pan fydd unigolion yn ymweld â'u swyddfa bost leol i gael mynediad at ei hystod eang o wasanaethau hanfodol, maent yn aml yn mynd i siopa mewn mannau eraill yn yr ardal gyfagos, boed i brynu bar o siocled neu baned o goffi. Mewn gwirionedd, mae'r ymchwil hwn yn dangos, mewn dau o bob pum ymweliad â swyddfa bost, bydd arian yn cael ei wario mewn siopau ac adeiladau cyfagos. Mae hyn yn ei dro, yn arwain at wariant ehangach ac mae'n golygu mwy na dim ond gwario mewn swyddfa bost, drwy weithredu fel peiriant ar gyfer economïau lleol.

Amcangyfrifir bod y **gwariant cyffredinol gerllaw yn ystod ymweliadau â changhennau Swyddfa'r Post gymaint â £3.1 biliwn y flwyddyn** (heb gynnwys siopau manwerthu canghennau swyddfa'r post).<sup>16</sup> Cyfrifwyd y ffigur hwn drwy luosi'r gwariant cyfartalog mewn mannau eraill ar y stryd

fawr wrth ymweld â swyddfa bost leol (£14.55) yn ôl y tebygolrwydd o brynu rhywle arall ar ymweliad â swyddfa bost (43%), ac yna yn ôl nifer yr ymweliadau â swyddfeydd post<sup>17</sup> y flwyddyn (tua 500 miliwn).

Bydd cyfran o'r gwariant hwn yn 'ychwanegol', yn yr ystyr na fyddai wedi'i wneud fel arall pe na bai rhywun wedi ymweld â swyddfa bost. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sy'n ymweld â'i swyddfa bost leol yn mynd at fân-werthwr lleol ac yn prynu rhywbeth na fyddent wedi'i wneud fel arall. Bydd eraill yn siopa ar eu stryd fawr leol ac yn gwario arian a fyddai fel arall wedi'i wario yn rhywle arall pe na bai ymweliad â'u swyddfa bost leol wedi'i wneud. Er enghraifft, mae'n debyg y byddai rhywun sy'n ymweld â'r archfarchnad tra'n ymweld â'i swyddfa bost leol wedi siopa mewn archfarchnad wahanol ac felly byddai cyfanswm y gwariant yn aros yr un fath. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw llawer o'r gwariant yn 'ychwanegol' mewn gwirionedd, mae dwy fantais amlwg.

1. Yn gyntaf, **mae ymweliadau â changhennau Swyddfa'r Post yn denu ymwelwyr i'r stryd fawr yn hytrach nag ar-lein neu i leoliadau y tu allan i'r dref**, sy'n golygu bod Swyddfa'r Post yn cynhyrchu incwm i'r busnesau lleol hyn (sy'n fwy tebygol o fod yn llai ac yn annibynnol o gymharu â'r dewisiadau eraill), gan gyfrannu at warchod strydoedd mawr y Deyrnas Gyfunol. Mae'r gwariant ychwanegol hwn sy'n cynnal busnesau lleol ar y stryd fawr yn cryfhau cymunedau lleol ymhellach, gan gyfrannu yn ei dro at werth cymdeithasol 'anweledig' Swyddfa'r Post (sy'n cael ei archwilio'n fanylach yn Adran 5).
2. Yn ail, **mae'n rhoi mwy o gyfleustra i ddefnyddwyr, drwy ganiatáu iddynt wneud cyfran fwy o'u siopa mewn un lle** (a archwilir ymhellach yn Adran 5). Mae'r nodwedd hon yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig gan bobl hŷn (55+) a'r rheini mewn ardaloedd gwledig, a cheir tystiolaeth eu bod yn fwy tebygol o wario arian yn rhywle arall yn ystod ymweliad â Swyddfa'r Post na phobl iau a'r rhai sy'n byw mewn ardal drefol.


16 Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli gwariant gros ac nid yw'n cyfrif am ychwanegedd na dadleoli. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli effaith uniongyrchol gwariant ychwanegol yn unig; ni chymhwysir unrhyw luosyddion i gyfrifo'r effaith anuniongyrchol ac anwythol i'r ffigur hwn.

17 Wedi'i fesur trwy ddata Swyddfa'r Post ar sesiynau cwsmeriaid y flwyddyn.

Mae ymweliadau â changhennau Swyddfa'r Post yn helpu i gynhyrchu gwariant ychwanegol ar gyfer busnesau lleol ar draws y Deyrnas Gyfunol, fel y dangosir yn Ffigur 4 – unwaith eto yn amlygu ehangder ac ystod gwerth economaidd Swyddfa'r Post i'r DG. Fodd bynnag, mae rôl Swyddfa'r Post o ran sbarduno gwariant ehangach ar y stryd fawr yn arbennig o gryf y tu allan i Loegr, gyda Gogledd Iwerddon a Chymru â'r gwariant mwyaf fesul person (£59) yn 2021-22. Mae effeithiau arbennig o gryf hefyd yn y Gogledd Ddwyrain (£52), Swydd Efrog a Humber

(£51) a'r Gogledd Orllewin (£50). Mae'r effeithiau cryf yng Ngogledd Iwerddon, Cymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Humber yn arbennig o arwyddocaol, o ystyried mai dyna'r pedwar rhanbarth â'r cynnyrch domestig gros rhanbarthol isaf y pen yn y Deyrnas Gyfunol yn 2020 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022e ). Mae'r effaith eang hyn yn amlygu'r dylanwad sydd gan Swyddfa'r Post ledled y DG o ran annog twf lleol a mynd i'r afael ag anghyfartaledd rhanbarthol, tra'n gweithredu fel angor i'r stryd fawr.

**Ffigur 4** Gwariant mewn manau eraill yn ystod ymweliad â Swyddfa Bost ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Gyfunol, fesul person ac yn gyffredinol, 2021-22



Sylwer: Rhannwyd cyfanswm y gwariant mewn manau eraill yn ystod ymweliad â Swyddfa Bost fesul rhanbarth ag amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 ar gyfer rhanbarthau'r DG (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b) i gael ffigurau fesul person. Yn ystyried pob unigolyn yn y DG, nid ymwelwyr â Swyddfa Bost yn unig. Yn cynnwys gwariant ychwanegol mewn manau eraill ond nid yw'n ystyried gwariant ychwanegol mewn siopau manwerthu Swyddfa'r Post.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar ddata Swyddfa'r Post, arolwg defnyddwyr YouGov a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021b). Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, data OS, Post Brenhinol, Gridlink, LPS (Gogledd Iwerddon), ONS, data NISRA, data NRS a data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022.

### 4.2. Hybu busnesau manwerth Postfeistri gwsteiol

Yn ogystal â'r effaith y mae canghennau Swyddfa'r Post yn ei chael o ran ysgogi gwariant ychwanegol i'r stryd fawr ledled y DG, maent hefyd yn darparu manteision sylweddol i Bostfeistri a'u siopau manwerth.

Mae gwerth swyddfa bost i'w safle manwerth gwsteiol yn cael ei ddangos gan yr effaith ganfyddedig ar berfformiad ariannol busnesau pe na bai'r swyddfa bost yno mwyach. Mewn gwirionedd, datgelodd yr ymchwil hwn fod mwyafrif clir o Bostfeistri (64%) yn credu y byddai effaith ddifrifol ar eu siop pe na bai swyddfa bost yn gefn iddi. Nododd hanner na fyddai eu busnes yn goroesi pe na bai eu swyddfa bost ar gael (Ffigur 5). Gan adeiladu ar hyn, **mae bron pob Postfeistr (96%) yn teimlo y byddai rhywfaint o effaith ar eu perfformiad ariannol pe bai eu swyddfa bost yn diflannu.** Mae'r ffigurau hyn yn amlygu'r gwerth i fân-werthwyr o gynnal swyddfa bost ar eu heiddo.


Mae Swyddfa'r Post yn cynhyrchu gwerth sylweddol ar gyfer safleoedd manwerthu sy'n cynnal canghennau asiantaeth Swyddfa'r Post (er enghraifft, lle mae siop bapurau newydd yn cynnal swyddfa bost). Mewn gwirionedd, ar gyfer safle adwerthu gwsteiwr nodweddiadol, mae mwy na thraean o'r holl bryniannau yn ei siop adwerthu ehangach yn cael eu gwneud gan gwsmeriaid Swyddfa'r Post.<sup>18</sup> **Cyfrifwyd bod cyfanswm gwerth y gwerthiannau hyn i Bostfeistri ledled y Deyrnas Gyfunol bron yn £1 biliwn y flwyddyn. (£959m).** Mae'r ffigurau hyn yn dangos sut mae cael swyddfa bost mewn siop fanwerth yn ysgogydd allweddol o ran nifer yr ymwelwyr a refeniw ac yn dangos ymhellach y rôl bwysig y mae Swyddfa'r Post yn ei chwarae wrth gefnogi busnesau lleol.

### 4.3. Cynnal miloedd o economïau gwledig lleol

Mewn llawer o gymunedau o amgylch y Deyrnas Gyfunol, swyddfa bost yw'r siop olaf sydd ar ôl yn y pentref. Diffinnir swyddfa bost felly os nad oes siopau cyfleustra neu fân-werthwyr melysion, tybaco, a phapurau newydd o fewn hanner milltir, sy'n golygu ei bod yn debygol y byddai'n rhaid i aelodau'r gymuned yrru neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd unrhyw siop pe bai eu swyddfa bost yn cau. Mewn gwirionedd, **mae mwy na chwarter (tua 3,000) o 11,500 o ganghennau Swyddfa'r Post yn cael eu hystyried yn "siop olaf y pentref".** Mae'r canghennau hyn yn darparu ymdeimlad arbennig o gymuned, megis bod yn bwysig i'r hunaniaeth neu ddiwylliant lleol neu ddarparu ymdeimlad o berthyn (archwilir ymhellach yn Adran 5). Maent hefyd yn sicrhau nad yw pobl yn y cymunedau hyn yn cael eu gadael ar ôl, sy'n golygu eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau hanfodol Swyddfa'r Post ac yn gallu cwblhau tasgau sylfaenol fel prynu nwyddau heb orfod teithio y tu allan i'r gymuned leol. Y rheini nad ydynt yn gyrru neu'n methu â gyrru a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan hyn, gan y byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus, sydd ar y cyfan yn wannach yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Nid yw holl fuddion y canghennau hyn yn gwbl amlwg yn elw a cholled y canghennau, gan fod eu statws unigryw yn y gymuned yn golygu bod ganddynt werth cymdeithasol sylweddol. Mae'r canghennau hyn yn arbennig o bwysig i bobl hŷn a phobl ag anableddau, sydd ill dau yn gyfran uwch o'r boblogaeth mewn ardaloedd gwledig (lle mae'r canghennau hyn yn tueddu i fod). Mae gwerth cymdeithasol swyddfeydd post i boblogaethau gwledig yn cael ei archwilio ymhellach yn Adran 6.

**Ffigur 5** Yr effaith ar berfformiad ariannol siopau manwerth os nad oedd eu swyddfa bost bellach yn rhan o'u busnes



Sylwer: Maint y sampl yw 426. Gofynnwyd i bostfeistri "Pe na fyddai Swyddfa'r Post yn rhan o'ch busnes mwyach, faint fyddai hynny'n effeithio ar berfformiad ariannol eich busnes?" a gofynnwyd iddynt ateb ar raddfa o 1 i 10, lle mai 1 ym golygu "Ni fyddai fy musnes yn goroesi heb Swyddfa'r Post" a 10 yn golygu "Ni fyddai unrhyw effaith ar fy musnes pe na bai Swyddfa'r Post yn rhan o'm busnes mwyach". Diffiniwyd dim effaith yn ôl y rhai a atebodd 1; Mân effaith = 2-3; Effaith gymedrol = 4-7; Effaith ddifrifol = 8-9; Ni fyddai busnes yn goroesi =10.

**Ffynhonnell: Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar yr arolwg o Bostfeistri gan London Economics.**

18 O ystyried cyfanswm cyfran yr ymwelwyr â Swyddfa'r Post nodweddiadol a'i siop fân-werthu, mae 63% yn gwneud pryniannau sy'n gysylltiedig â Swyddfa'r Post ac nid yw 37% yn gwneud unrhyw bryniannau sy'n gysylltiedig â Swyddfa'r Post (ond yn gwneud pryniannau eraill yn y siop fân-werthu ehangach). Mae 32% o'r rhai sy'n gwneud pryniannau sy'n gysylltiedig â Swyddfa'r Post hefyd yn gwneud pryniannau eraill yn y siop fân-werthu, sy'n golygu bod 20% (32% wedi'i luosi â 63%) o'r rhai sy'n ymweld â Swyddfa'r Post a'i safle mân-werthu ehangach yn prynu yn Swyddfa'r Post ac yn y siop fân-werthu. Felly, mae 57% o ymwelwyr â changhennau Swyddfa'r Post yn prynu yn y siop fân-werthu ehangach, ac mae 35% (20% wedi'i rannu â 57%) yn gwsmeriaid Swyddfa'r Post.

## Astudiaeth achos: darparu gwasanaethau bancio hanfodol yn Rochford

Wrth i ganghennau banc barhau i gau ar draws y DG, mae Canolfannau Bancio yn dod â gwasanaethau bancio i un lle cyfleus, gan ddarparu gwasanaethau hollbwysig mewn cymunedau ledled y DG – fel Rochford yn Essex.

Agorodd Canolfan Fancio'r dref, sy'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Post, yn 2021 fel rhan o gynllun peilot i helpu i sicrhau mynediad at arian parod i gymunedau'r DG. Ar y pryd, roedd banciau Rochford eisoes wedi cau, gan olygu bod yn rhaid i drigolion a pherchnogion busnes deithio i'r trefi cyfagos i godi ac adneuo arian parod.

Dywedodd y postfeistr Richard Fleetwood fod y Ganolfan Fancio yn ddelfrydol i Rochford:

**“Mae busnesau lleol yn ei defnyddio drwy'r amser, yn bennaf ar gyfer adneuo arian parod a chael newid. Iddyn nhw, mae'r Ganolfan Fancio o fudd enfawr, oherwydd yn flaenorol bu'n rhaid iddyn nhw gau'n gynnar i fynd i ba bynnag ddinas neu dref y mae banc ynddi. O ran gweithredu, mae eu costau'n is.**

“Maen nhw hefyd wedi dweud wrthym eu bod wedi gweld cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr, oherwydd bod pobl yn dod i mewn ac yn gwario arian yn Rochford, yn hytrach nag yng nghanol dinasoedd.”

Roedd y gymuned yn gwerthfawrogi'r arloesedd y tu ôl i'r Ganolfan Fancio, meddai, oherwydd ei bod yn gweithio mor dda.

“Rydyn ni bob amser yn clywed, ‘Am syniad gwych, a pham nad oes neb erioed wedi meddwl am y fath beth o'r blaen?’

“Un o'r rhesymau pennaf pam ei bod yn gweithio yw bod grŵp annibynnol y gellir ymddiried ynddo yn y canol – Swyddfa'r Post – sy'n gallu cefnogi cwsmeriaid pob banc. Mae cwsmeriaid wrth eu bodd. Mae'n gyfleus, mae'n rhad ac am ddim, ac mae wedi gwneud arian parod gymaint yn fwy hygyrch.”

Mae'r risg i gymunedau lleol yn sylweddol os collir y siopau olaf hyn yn y pentref: mae canghennau Swyddfa'r Post, sef siop olaf y pentref, yn hwylyso tua 29 miliwn o ymweliadau Swyddfa'r Post y flwyddyn. Ymhellach, byddai colli'r canghennau hyn yn cael effaith ar swm anghymesur o wariant ychwanegol. Wrth ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post, mae pobl mewn ardaloedd gwledig hefyd yn defnyddio gwasanaethau nad ydynt yn rhai Swyddfa'r Post bedair gwaith o bob 10, o gymharu ag un o bob pedair gwaith mewn ardaloedd trefol, gan amlygu pwysigrwydd y canghennau hyn y tu hwnt i ddarparu mynediad at wasanaethau hanfodol Swyddfa'r Post. Er enghraifft, yn aml iawn, y canghennau hyn yw'r lle olaf yn y pentref lle gall pobl brynu nwyddau sylfaenol neu bapur newydd. O ystyried proffidioldeb cyfyngedig llawer o'r canghennau hyn, gallai colli canghennau Swyddfa'r Post olygu y byddai miloedd o gymunedau ledled y wlad yn cael eu gadael heb unrhyw siopau a heb wasanaethau hanfodol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan Swyddfa'r Post – fel gwasanaethau post a bancio, yn ogystal ag eraill fel mynediad at fwyd sylfaenol. Mae cefnogi canghennau mewn lleoliadau gwledig iawn yn bwysig dros ben o ran gallu dal i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

### 4.4. Cnoi cil

Mae dwy bennod gyntaf yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwerth economaidd uniongyrchol y mae Swyddfa'r Post yn ei roi i'r Deyrnas Gyfunol, yn ogystal â'i rôl yn seilwaith economaidd sylfaenol y D.G. Fodd bynnag, canfu'r ymchwili hwn hefyd werth economaidd cynyddol Swyddfa'r Post drwy fod yn angor economaidd i'r stryd fawr a chymunedau. Mae swyddfeydd post yn darparu gwasanaethau hanfodol na ellir eu gwneud ar-lein neu nad oes llawer o ddewisiadau eraill ar eu cyfer. Nid yn unig y mae swyddfeydd post, yn eu tro, yn ysgogi mwy o ymwelwyr i'r stryd fawr, ond nhw hefyd yw'r piler sy'n cynnal busnesau di-rif a chymunedau gwledig a fyddai, heb gymorth parhaus i'w swyddfa bost, yn wynebu dinistr.





## 5. Pecyn annatod o fywyd y Deyrnas Gyfunol: y swyddfa bost yn ganolbwynt i gymdeithas a defnyddwyr yn y gymuned

### Canfyddiadau allweddol: y swyddfa bost yn ganolbwynt i gymdeithas a defnyddwyr yn y gymuned

- Mae hanner y defnyddwyr ar draws y Deyrnas Gyfunol yn credu bod Swyddfa'r Post yn meithrin ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a'i fod yn bwysig i'w hunaniaeth – yn enwedig yr henoed, y rhai ag anableddau, o ardaloedd gwledig neu ar incwm isel.
- Mae swyddfeydd post yn arbennig o werthfawr i gymunedau gwledig, sy'n rhoi mwy o werth ar Swyddfa'r Post na'r rhai mewn ardaloedd trefol – gan ganolbwyntio'n benodol ar arian parod a gwasanaethau bancio, o ystyried diffyg dewisiadau cyfleus eraill.
- Mae Swyddfa'r Post hefyd yn darparu rhwyddineb, hygyrchedd a chyfleustra i ddefnyddwyr, drwy ddod ag ystod o wasanaethau o dan yr un to, gyda chwech o bob saith o ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolig yn credu ei bod yn bwysig i swyddfa bost fod gerllaw ac yn gyfleus i'w chyrraedd. Mae defnyddwyr yn rhoi gwerth arbennig o uchel ar wasanaethau post Swyddfa'r Post.

### 5.1. Meithrin balchder mewn cymunedau

Mae'r ymchwil hwn, a thair pennod gyntaf yr adroddiad hwn, wedi tynnu sylw at y gwerth economaidd sylweddol y mae swyddfeydd post yn ei roi i'r Deyrnas Gyfunol ac i gymunedau lleol. Fodd bynnag, mae swyddfeydd post hefyd yn dod â gwerth llai diriaethol, ond yr un mor bwysig, i'w cymunedau – un nad yw'n hawdd ei fesur mewn termau economaidd yn unig. Mae Swyddfa'r Post yn frand sydd â hanes hir, ac felly mae swyddfeydd post yn cael eu gwerthfawrogi'n eang gan eu cymunedau fel sefydliadau hirsefydlog.

Ategwyd hyn gan yr ymchwil hwn, gyda bron i dri o bob pedwar o bobl yn rhoi cryn bwysigrwydd ar Swyddfa'r Post yn darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb – a oedd yn bwysicach na bron unrhyw rinwedd arall (ac eithrio bod gerllaw ac yn gyfleus, sef 84%). At hynny, mae hanner y defnyddwyr ar draws y Deyrnas Gyfunol yn gwerthfawrogi rôl Swyddfa'r Post yn cyfrannu at hunaniaeth neu ddiwylliant eu cymuned leol, ac mae nifer tebyg yn dweud eu bod yn meddwl ei bod yn bwysig bod Swyddfa'r Post yn parhau i fod yn lleol er mwyn rhoi ymdeimlad o berthyn

i'r gymuned. Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach o bwysigrwydd Swyddfa'r Post mewn cymunedau lleol: roedd Swyddfa'r Post yn drydydd o ran cael effaith gadarnhaol ar yr ardal leol ym Maromedr Cymunedol 2022 y Gymdeithas Siopau Cyfleustra). Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu sut mae swyddfeydd post yn helpu i gynnal balchder cymunedau yn eu hardaloedd ledled y Deyrnas Gyfunol.

Gyda mwy na hanner rhwydwaith Swyddfa'r Post wedi'i leoli mewn ardaloedd gwledig, mae'r ymchwil hwn hefyd wedi datgelu'r rôl arbennig o bwysig y mae Swyddfa'r Post yn ei chwarae mewn cymunedau gwledig. Mae'r bobl mewn ardaloedd gwledig yn llawer mwy tebygol o werthfawrogi'r swyddfa bost leol fel rhywbeth sy'n bwysig i hunaniaeth neu ddiwylliant eu cymuned leol (60% o gymharu â 46% mewn ardaloedd trefol, gan godi i 70% ar gyfer pobl 55 oed a hŷn mewn ardaloedd gwledig) ac yn fwy tebygol o feddwl ei bod yn bwysig bod **Swyddfa'r Post yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r gymuned** (57% o gymharu â 45%, gan godi i 64% ar gyfer pobl 55 oed a hŷn mewn ardaloedd gwledig). Er bod gan rwydwaith canghennau Swyddfa'r Post gyrhaeddiad cyffredinol ledled y Deyrnas Gyfunol, mae'n amlwg yn chwarae rhan arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig lle mae diffyg mân-werthwyr eraill, drwy helpu i ddod â'r gymuned ynghyd.

Canfu'r ymchwil hwn hefyd fod swyddfeydd post yn arbennig o bwysig i grwpiau ymylol. Roedd rôl Swyddfa'r Post o ran darparu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn yn arbennig o bwysig ymhlith pobl hŷn 55+ (63% a 60%), y rhai ag incwm cartref is o £20,000 y flwyddyn neu lai (58% a 53%) a phobl ag anableddau (57% a 55%). Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu pwysigrwydd hanfodol cyfraniad Swyddfa'r Post i gymunedau lleol ac yn awgrymu mai hyn sydd bwysicaf i'r grwpiau hynny sydd yn y perygl mwyaf o fod yn agored i niwed neu wedi'u hallgáu o gymdeithas.



Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post

## Astudiaeth achos: pecyn annatod i'r gymuned leol ym Mhontrilas

Gyda 11,500 o ganghennau ar draws y DG, mae Swyddfa'r Post wrth galon pob gwlad a phob cymuned. Mae Swyddfa'r Post yn frand cynhwysfawr, ac yn gynhenid leol ar yr un pryd, yn aml yn chwarae rhan bwysig yn yr ardal gyfagos sy'n mynd y tu hwnt i ddim ond darparu gwasanaethau.

Ystyriwch Swyddfa Bost Pontrilas yng nghefn gwlad Swydd Henffordd, sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned, ar gyfer y gymuned. Arweiniodd y bostfeistres Sonya Cary yr ymdrech i gymryd drosodd y swyddfa bost ar gyfer y gymuned wyth mlynedd yn ôl ac ers hynny mae wedi rhedeg y gangen a'r elusen gyfagos, CARE CIC Swydd Henffordd, gyda thîm o wirfoddolwyr lleol.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post, mae cangen Sonya yn mynd y tu hwnt i'r galw drwy weithredu fel achubiaeth i'r henoed sy'n byw gerllaw. Mae'r elw o'r swyddfa bost yn cael ei ail-fuddsoddi yn CARE CIC, sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau sy'n cynorthwyo preswylwyr hŷn i barhau i fyw'n annibynnol.

Yn ogystal, mae'r elusen yn rhedeg campfa leol, caffi, a chlwb cinio i helpu pobl leol i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

### Mae hyn yn gwneud Pontrilas yn enghraifft wych o sut mae swyddfeydd post yn fwy na dim ond mân-werthwr arall ar y stryd fawr, ac yn aml gallant chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo ymdeimlad o gymuned a meithrin perthyn i ardal.

Dyweddodd Sonya: "Mae Swyddfa'r Post wedi bod yn ganolog i bopeth y mae CARE wedi gallu ei wneud. Mae pobl yn meddwl amdanom ni fel swyddfa bost sydd â chanolfan gymdeithasol yn gysylltiedig â hi – ac oni bai am Swyddfa'r Post, ni fyddwn wedi gallu cyflawni cymaint.

"Mae wedi bod yn un stori lwyddiant ar ôl y llall. Rydym yn chwarae rhan amhrisiadwy. Mae pobl, yn enwedig ein trigolion oedrannus, yn dibynnu arnom ni. Rydyn ni wir yn cadw cymuned yn fyw."

Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i Sonya yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2020 am ei gwaith cymunedol yn ystod y cyfnod clo, yn trefnu bwyd a chinio dydd Sul i bobl ynysig mewn 23 o bentrefi cyfagos.

"Pan fo problem, mae pobol yn dod yn syth i Swyddfa'r Post. Maen nhw'n ymddiried ynom ni."



## 5.2. Cefnogi bywyd gwledig

Yn ôl yr ymchwil hwn, mae swyddfeydd post yn gwneud mwy na dim ond meithrin balchder mewn cymunedau gwledig; canfuwyd eu bod hefyd yn rhan annatod o hybu bywyd bob dydd yno. Gyda 99% o'r boblogaeth wledig o fewn tair milltir i'w swyddfa bost agosaf a dros hanner y rhwydwaith o ganghennau mewn lleoliadau gwledig, mae Swyddfa'r Post ar gael, ac yn fwy cyfleus, i gymunedau gwledig na'r un mân-werthwr arall (Clark a Booth, 2022).

Mewn gwirionedd, dangosodd yr ymchwil hwn bwysigrwydd yr hygyrchedd hwn i gymunedau gwledig a'i gwerth cymdeithasol, gydag unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn defnyddio eu swyddfa bost leol yn amlach na phobl y dref (41% yn ei defnyddio unwaith y mis neu'n amlach o'i gymharu â 30% yn y dref). Gwelsom hefyd fod unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fodlon talu mwy bob mis i gynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post, o'i gymharu â thrigolion trefi (£11.98 yn hytrach na £10.99). Mae hyn yn cyfoethogi'r canfyddiadau ynghylch "siop olaf y pentref" (Adran 4.3) ac yn cadarnhau bod y rhai mewn cymunedau gwledig nid yn unig yn fwy tebygol o ddefnyddio swyddfa bost, ond hefyd yn fwy tebygol o werthfawrogi ei rôl.

Mae'n debygol iawn fod Swyddfa'r Post mor bwysig i gymunedau gwledig am nad oes dewis arall cyfleus ar gael, ac mae swyddfeydd post yn llai tebygol o fod ag amrywiaeth eang o fusnesau o'u hamgylch yn yr ardaloedd hynny. Ac eithrio talu biliau a gwasanaethau'r llywodraeth, roedd y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn llai tebygol o allu cael dewisiadau eraill yn lle gorfod dibynnu ar wasanaethau Swyddfa'r Post. Roedd y dewisiadau amgen cyfleus i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig hefyd yn llawer llai tebygol o fod yn bersonol. Yr unig eithriad i hyn oedd darparu gwasanaethau hunaniaeth, lle'r oedd canlyniadau tebyg i gymunedau gwledig a threfol.

Mae gwasanaethau arian parod a bancio yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig. Mae mwy na dau o bob pump o'r bobl mewn ardaloedd gwledig yn defnyddio'r gwasanaethau hyn o leiaf unwaith y flwyddyn mewn

swyddfa bost (mewn cymhariaeth â bron un o bob tri mewn ardaloedd trefol), tra bod y rhai mewn ardaloedd gwledig yn llawer llai tebygol o fod â dewisiadau amgen cyfleus i swyddfeydd post sy'n cynnig y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd (34% o'i gymharu â 45%). Mewn gwirionedd, mae'r rhai mewn ardaloedd gwledig ddwywaith yn fwy tebygol na'r rhai mewn ardaloedd trefol o ddibynnu ar eu cangen swyddfa bost leol am wasanaethau arian parod a bancio (26% o'i gymharu â 13%), yn ôl arolwg ar wahân gan YouGov yn 2021 (a gynhaliwyd ar ran Swyddfa'r Post).<sup>19</sup>

Mae rôl Swyddfa'r Post o ran cefnogi bancio gwledig yn debygol o ddod hyd yn oed yn fwy amlwg yn y dyfodol, gan ddibynnu ar faint rhagor o fanciau fydd yn cau (fel y trafodir yn Adran 3.3). Yn arolwg YouGov 2021, canfuwyd bod ymatebwyr i'r arolwg o gymunedau gwledig yn fwy tebygol o fod yn bryderus ynghylch cau canghennau banc (62% o gymharu â 56% mewn ardaloedd trefol), ac yn fwy tebygol hefyd o gael eu heffeithio'n bersonol (37% o gymharu â 31%) gan y cau. Er bod hyn yn broblem i lawer o bobl ledled y wlad, mae dirywiad banciau'r stryd fawr yn arbennig o bwysig i drigolion cymunedau gwledig, sy'n amlygu rôl hollbwysig Swyddfa'r Post yn hyn o beth yn yr ardaloedd hynny a pham mae angen ei chefnogaeth barhaus.

### 5.3. Sicrhau cyfleustra i ddefnyddwyr – yn enwedig ar gyfer gwasanaethau post

Yn ogystal â bod yn ganolbwynt cymdeithasol i gymunedau, mae swyddfeydd post hefyd yn gwasanaethu hybiau defnyddwyr, gan alluogi mynediad rhwydd i filiynau o bobl bob wythnos. Yn wir, mae Swyddfa'r Post yn unigryw o ran y cyfleustra y mae un busnes yn ei gynnig i ddefnyddwyr yn rhinwedd nifer a chyrhaeddiad ei ganghennau ledled y DG.

Datgelodd yr ymchwili hwn fod hygyrchedd rhwydwaith Swyddfa'r Post yn bwysig iawn i gymunedau. Ar gyfartaledd, mae defnyddwyr yn fodlon talu bron i £30 y flwyddyn i atal eu swyddfa bost agosaf rhag symud dim ond milltir ymhellach i ffwrdd. Mae ehangder y rhwydwaith o ganghennau yn dod â manteision sylweddol i gymunedau.

Yn bwysig, mae'n dod â gwasanaethau hanfodol o fewn cyrraedd defnyddwyr ac, o ganlyniad, mae hefyd yn caniatáu iddynt gyflawni eu tasgau a'u gweithgareddau bob dydd gerllaw ac yn eu hardal leol – heb orfod teithio i'r dref neu'r pentref nesaf, neu i ganolfannau siopa ar gyrion trefi. Mae'r canfyddiadau yma'n dangos bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymunedau, gan ddangos pwysigrwydd cadw Swyddfa'r Post yn lleol a gwerth cael presenoldeb personol.

**Mae Swyddfa'r Post yn unigryw o ran y cyfleustra y mae un busnes yn ei gynnig i ddefnyddwyr yn rhinwedd nifer a chyrhaeddiad ei ganghennau ledled y DG.**

Nid yw'n fawr o syndod felly bod yr ymchwili hwn wedi canfod bod **defnyddwyr ledled y Deyrnas Gyfunol yn parhau i ddibynnu'n rheolaidd ar Swyddfa'r Post, gydag un o bob 10 defnyddiwr yn ei ddefnyddio o leiaf unwaith yr wythnos**, tra bod un o bob tri yn defnyddio swyddfa bost o leiaf bob mis. Yn ehangach, mae mwyafrif helaeth y defnyddwyr yn defnyddio swyddfa bost o leiaf unwaith y flwyddyn (89%). Er bod Swyddfa'r Post o bwysigrwydd amrywiol i wahanol gymunedau ac unigolion o fewn y cymunedau hynny, o fod yn dibynnu arno i gyflawni tasgau hanfodol o ddydd i ddydd i gael ei ddefnyddio bob hyn a hyn, mae bron holl boblogaeth breswyl y Deyrnas Gyfunol yn rhyngweithio â Swyddfa'r Post ar ryw adeg bob blwyddyn – rhywbeth na all llawer o sefydliadau manwerth unigol eraill ei hawlio.

Amlygodd yr ymchwili hwn werth tair o rinweddau Swyddfa'r Post yn benodol. Yn gyntaf, cadarnhaodd yr arolygon defnyddwyr a busnesau bach a chanolig bwysigrwydd agosrwydd swyddfeydd post, gyda thua chwech o bob saith defnyddiwr a BBaCh (85%) yn credu ei bod yn bwysig i swyddfa bost fod gerllaw ac yn gyfleus i'w chyrraedd. Roedd hyn yn golygu mai dyma'r nodwedd a werthfawrogi fwyaf gan ddefnyddwyr; yn ail, roedd 'busnes dibynadwy a hawdd i ymwneud ag ef' (88%) ar gyfer busnesau bach a chanolig. Does dim yn agos at gyffwrdd Mae'r cyfleustra i ddefnyddwyr a ddarperir gan y rhwydwaith eang o ganghennau Swyddfa'r Post ymhell ar y blaen, ac mae canlyniadau'r arolygon hyn yn dangos ei fod yn flaenoriaeth allweddol i ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolig.

Yn ail, tanlinellodd y ffaith bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi argaeledd ystod eang o wasanaethau Swyddfa'r Post yn yr un man. Mae bron i dri o bob pedwar o bobl yn rhoi pwys sylweddol ar ddarparu ystod o wasanaethau mewn un lle wrth feddwl am rinweddau Swyddfa'r Post. At hynny, ym marn y rhan fwyaf o ddefnyddwyr, roedd yn bwysig bod gwasanaeth casglu a gadael parseli (61%), gwasanaethau post (58%) a gwasanaethau i ddiwallu anghenion bancio sylfaenol (58%) yn cael eu darparu yn yr un lleoliad â gwasanaethau eraill, a theimlai tua hanner (47%) yr un peth am wasanaethau hunaniaeth (Ffigur 6). Mae'r dadansoddiad yn nodi'r ffaith bod ystod eang o wasanaethau Swyddfa'r Post o fudd i ddarpariaeth pob gwasanaeth yn unigol, ond hefyd yn dangos manteision cael Swyddfa'r Post fel siop-un-stop cyfleus neu hyb defnyddwyr ar gyfer gwasanaethau hanfodol.



19 Noder bod yr arolwg hwn yn wahanol i'r un a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn.




**Yn olaf, amlygodd yr ymchwil hwn sut mae Swyddfa'r Post yn caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at wasanaethau tra hefyd yn defnyddio busnesau eraill ar y stryd fawr.**

Mae defnyddwyr yn gwario arian sylweddol mewn manau eraill ar y stryd fawr tra ar ymweliad â swyddfa post – ar gyfartaledd yn gwneud pryniannau ychwanegol ar ddau o bob pum ymweliad.<sup>20</sup> Yn bwysig, mae hyn yn digwydd yn

amlach ar gyfer y rhai ar incwm isel a'r rhai â nodweddion bregusrwydd megis anabledau. Mae'r data hwn yn awgrymu bod yr unigolion hyn yn arbennig o werthfawrogi o allu gwneud eu siopa mewn un man, sy'n cael ei hwyluso gan Swyddfa'r Post trwy fod yn angor stryd fawr (fel y dangosir yn Adran 4), yn ogystal â thrwy ei wasanaethau eang a gynigir o fewn canghennau.

**Ffigur 6 Pwysigrwydd i ddefnyddwyr fod gerllaw ac yn gyfleus i wasanaethau dethol a gynigir gan Swyddfa'r Post (ni waeth gan bwy y cânt eu darparu)**



Noder: Maint y sampl yw 2,044.

Ffynhonnell: Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar arolwg YouGov

Fodd bynnag, amlygodd yr ymchwil hwn hefyd fod defnyddwyr yn wir werthfawrogi gwasanaethau post Swyddfa'r Post, a byddent yn talu mwy na £120 yr aelwyd ar gyfartaledd bob blwyddyn i sicrhau fod y gwasanaethau yn dal i fod ar gael yn eu swyddfa bost leol. Canfuwyd hefyd taw gwasanaethau post oedd y gwasanaethau Swyddfa'r Post pwysicaf i ddefnyddwyr (yr oedd 86% o'r ymatebwyr yn eu hystyried yn hollbwysig) a busnesau bach a chanolig (83%). Roedd gwasanaethau post hefyd yn cael eu defnyddio'n amlach nag unrhyw wasanaeth arall, gyda 29% o ddefnyddwyr a 52% o BBaChau yn eu defnyddio o leiaf unwaith y mis mewn swyddfa bost. Casglu a gadael oedd yr gwasanaeth ail bwysicaf i ddefnyddwyr (58%) a'r gwasanaeth trydydd pwysicaf i fusnesau bach a chanolig (38%), gan ddangos rôl Swyddfa'r Post o ran cefnogi siopa cyfleustra a siopa ar-lein. Wrth i ymddygiadau ar-lein newid yn gynyddol ac wrth i e-fasnach ffynnu yn y Deyrnas Gyfunol, mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod Swyddfa'r Post yn cefnogi'r trawsnewid hwnnw ac yn gwasanaethu fel cyflenwad ffisegol naturiol i'n heconomi ddigidol drwy ddarparu gwasanaethau'n lleol ac yn bersonol.


**Mae defnyddwyr yn wir werthfawrogi gwasanaethau post Swyddfa'r Post, a byddent yn talu mwy na £120 yr aelwyd ar gyfartaledd bob blwyddyn i sicrhau fod y gwasanaethau yn dal i fod ar gael yn eu swyddfa bost leol.**

Yn bwysig, datgelodd canlyniadau'r arolwg hefyd fod defnyddwyr yn meddwl bod darpariaeth gwasanaethau post Swyddfa'r Post yn unigryw ar y stryd fawr. Dim ond cyfran fach o unigolion sy'n credu bod dewisiadau amgen cyfleus yn lle Swyddfa'r Post o ran darparu gwasanaethau post (15%), tra ar yr un pryd dywedodd cyfran sylweddol iawn o ddefnyddwyr nad oedd unrhyw ddewisiadau amgen o gwbl (35%) yn lle Swyddfa'r Post. (Ffigur 7). Mae'r data hwn yn dangos dibyniaeth cymunedau a'r stryd fawr ledled y DG ar Swyddfa'r Post, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau post.

<sup>20</sup> Mae'r ffigur hwn yn wahanol i'r ffigur o 43% a ddyfynnwyd yn Adran 4, gan fod y ffigur blaenorol hwnnw'n cynrychioli cyfran yr ymweliadau â Swyddfa'r Post lle gwneir pryniant yn rhywle arall (ac felly wedi'i bwysoli gan amllder ymweliadau â Swyddfa'r Post gan bob defnyddiwr), tra bod y ffigur hwn yn cynrychioli cyfran gyfartalog yr ymweliadau lle mae pob ymatebydd yn adrodd eu bod wedi prynu yn rhywle arall. Mae'r ffigurau'n amrywio gan fod y rhai sy'n defnyddio Swyddfa'r Post yn amlach hefyd yn fwy tebygol o brynu yn rhywle arall.



**Ffigur 7** Argaeledd dewisiadau ar wahân i Swyddfa'r Post ar gyfer gwasanaethau post



Noder: Maint y sampl yw 2,044. Mae 'Dewisiadau eraill' yn cynnwys 'amherthnasol i mi' a 'heb fod yn siŵr'.

**Ffynhonnell:** Dadansoddiad London Economics yn seiliedig ar arolwg defnyddwyr YouGov

O ystyried gwerth darpariaeth gwasanaethau post (waeth pwy sydd yn eu darparu), mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn meddwl ei bod yn bwysig bod gwasanaethau post yn cael eu darparu'n agos at [eu] cartref neu weithle (84%), gan frand hysbys neu frand y gellir ymddiried ynddo (75%), yn yr un lleoliad â gwasanaethau eraill (58%) a chan ddarparwr sy'n eiddo i'r wladwriaeth (53%). O ystyried rhwydwaith mawr o ganghennau Swyddfa'r Post, ei ddarpariaeth eang o wasanaethau a'i statws o berthyn am yn hir i gymunedau, Swyddfa'r Post yn unig sydd mewn sefyllfa unigryw o ran ei allu i ateb gofynion defnyddwyr mewn perthynas â phob un o'r pedair nodwedd hyn.

### 5.4. Cnoi cil

Ni ellir mesur pob gwerth yn rhwydd mewn termau economaidd - ond nid yw hynny'n lleihau'r gwerth hwnnw. Swyddfa'r Post yw un o'r sefydliadau hynaf yn y Deyrnas Gyfunol, sy'n dyddio'n ôl bron i bedair canrif, ac mae'n bresenoldeb ffisegol y mae holl gymunedau'r Deyrnas Gyfunol yn ymddiried ynddo. Yn wir, mae cymunedau'n ei drysori – yn enwedig mewn rhannau gwledig o'r Deyrnas Gyfunol. Yn ogystal â bod yn ganolbwyntiau cymdeithasol, mae swyddfeydd post hefyd yn hwyluso cyfleustra i ddefnyddwyr - gan gynnig agosrwydd ac ystod o wasanaethau o dan yr un to, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr.



Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post

## 6. Mwy na siop: cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu yn ein cymdeithas

### Canfyddiadau allweddol: cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu yn ein cymdeithas

- Mae gan rwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd werth cymdeithasol blynyddol o bron i £4 biliwn i ddefnyddwyr. Mae'n drawiadol bod gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post yn parhau mor uchel, hyd yn oed yng nghanol argyfwng costau-byw digynsail, sydd (oherwydd llai o allu i dalu) yn debygol o fod wedi lleihau prisiau ymatebwr yn sylweddol.
- Mae defnyddwyr agored i niwed yn rhoi gwerth arbennig o uchel ar Swyddfa'r Post. Nid yn unig y mae defnydd yn uwch ymhlith cwsmeriaid agored i niwed, ond maent hefyd yn fodlon talu tua un a hanner gwaith yn fwy na defnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed i atal eu Swyddfa Bost agosaf rhag symud milltir i ffwrdd, er bod eu hincwm yn is.
- Gyda dirywiad banciau'r stryd fawr, Swyddfa'r Post yw prif gynheiliad seilwaith bancio'r Deyrnas Gyfunol ar gyfer unigolion bregus a llai cefnog. Mewn gwirionedd, mae'r rhai yn y graddau cymdeithasol is (C2DE) yn fodlon talu teirgwaith yn fwy na'r rhai yn y graddau uwch (ABC1) am y gwasanaethau hyn.

sydd, er nad ydynt yn cael eu talu'n uniongyrchol, yn gwneud bywydau pobl yn haws ac yn eu gwneud yn fwy bodlon â Swyddfa'r Post.

Mae enghreifftiau o'r buddion anniriaethol hyn (ymhlith llawer o rai eraill) yn cynnwys gwerth gwybod bod Swyddfa Bost gerllaw a'r arbedion amser cysylltiedig; gwerth darparu gwasanaethau hanfodol na fyddent fel arall yn cael eu darparu; y gwerth i'r gymuned; a gwerth darparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Y nod yw gosod gwerth ariannol ar y cyfuniad o'r nodweddion anniriaethol hyn, er mwyn rhoi eu pwysigrwydd i gymdeithas yn ei gyd-destun.

**Mae gwerth cymdeithasol blynyddol Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd gymaint â £3.8 biliwn.**<sup>21</sup> Mewn gwirionedd, ar gyfartaledd, mae defnyddwyr yn fodlon talu mwy na £130 yr aelwyd am wasanaethau Swyddfa'r Post bob blwyddyn.<sup>22</sup> O gymharu ag arian y llywodraeth i Swyddfa'r Post yn 2021-22<sup>23</sup>, mae hyn yn golygu cymhareb budd cymdeithasol – cost cyhoeddus o tua 16.5 i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mewn geiriau eraill, roedd y gwerth cymdeithasol (ar ei ben ei hun) a ddarparwyd gan Swyddfa'r Post 16.5 gwaith yn fwy na'r cyllid a roddwyd gan y llywodraeth i Swyddfa'r Post yn 2021-22.

### 6.1. Darparu gwerth cymdeithasol enfawr i'r Deyrnas Gyfunol

Mae gan Swyddfa'r Post hanes hir o wasanaethu'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd wedi'u hallgáu mewn cymdeithas, ac enw da am hynny. Wrth i'r byd fynd yn fwy digidol, mae llawer o bobl naill ai'n methu neu'n anffodlon mynd ar-lein – ac **mae Swyddfa'r Post yn hanfodol i'r grwpiau hynny drwy ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb â chymorth yn y fan a'r lle.**

Gyda hyn mewn golwg, ceisiodd yr ymchwil hwn fesur gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post. Dyma'r gwahanol agweddau ar werth 'nad yw'n ymwneud â'r farchnad' y mae unigolion yn ei roi ar Swyddfa'r Post, yn ychwanegol at unrhyw arian y maent yn ei wario mewn swyddfa bost yn uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae gwerth cymdeithasol yn cynnwys ystod eang o fuddion anniriaethol



21 Yn yr un modd â'r canfyddiadau ar gyfer busnesau bach a chanolig, mae'r canlyniad hwn yn defnyddio model prisiaid amodol penagored. Rhoddir manylion ynghylch pam y rhoddwyd blaenoriaeth i'r model hwn a sut y cafwyd gwerth cymdeithasol blynyddol rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd yn Atodiad 1.

22 Roedd 28,081,000 o aelwydydd yn y DG yn 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022c), sef y flwyddyn ddiweddaraf yr oedd data ar gael ar ei chyfer.

23 Cyfanswm cyllid y llywodraeth ar gyfer Swyddfa'r Post yn 2021-22 oedd £227 miliwn (Clark a Booth, 2021). Mae hyn yn cynnwys cymorthdall rhwydwaith o £50 miliwn a £177 miliwn i fuddsoddi yn nyfodol y rhwydwaith (sy'n cynnwys chwistrelliad ecwiti o £125 miliwn a benthyciad o £52 miliwn).





**Mae gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr agored i niwed,**<sup>24</sup> sy'n fodlon gwario cyfran fwy o'u hincwm na gweddill y boblogaeth ar gynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post. Er bod defnyddwyr agored i niwed yn fodlon talu ychydig yn llai fesul aelwyd na gweddill y boblogaeth mewn treth (£10.78) er mwyn cynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post, maent yn fwy tebygol o fod ag incwm isel. Mae'r defnyddwyr agored i niwed a arolygwyd yn fwy tebygol o fod ag incwm o lai na £20,000 yr aelwyd (dau o bob pump o ddefnyddwyr agored i niwed o gymharu ag un o bob pum defnyddiwr heb unrhyw nodwedd agored i niwed) ac yn llai tebygol o fod ag incwm yn fwy na £40,000 yr aelwyd (25% o'i gymharu i 46%). Fel y cyfryw, er bod eu prisiaid fesul aelwyd yn is, mae incwm sylweddol is defnyddwyr agored i niwed yn awgrymu bod eu prisiaid o Swyddfa'r Post yn uwch nag ar gyfer defnyddwyr eraill yn ôl cyfran o'u hincwm.

Ers i'r ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn gael ei gomisiynu yn gynnar yn 2022, mae'r cynnydd mewn costau byw wedi tynhau cyllidebau aelwydydd y rhai mwyaf agored i niwed ymhellach, gan wneud gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post yn fwy arwyddocaol. Mae Swyddfa'r Post wedi bod yn cefnogi cymunedau lleol wrth i gostau byw godi. Er enghraifft, yn ystod pandemig Covid-19, sicraodd Swyddfa'r Post fod arian parod ar gael i gwsmeriaid sy'n ynysu gartref ac mae wedi sicrhau bod arian parod ar gael i'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth bil ynni gan y Llywodraeth drwy PayOut.

Mae Swyddfa'r Post hefyd wedi ymestyn cymorth drwy gydweithio â Chyngor ar Bopeth ac Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain i sefydlu canolfannau cynghori sy'n cynnig gwybodaeth am filiau ynni i ddefnyddwyr agored i niwed a allai fod heb fynediad i'r rhyngwyd. Mae postfeistri ledled y wlad hefyd wedi cael canllawiau ar gyfer y ffordd orau o gefnogi cwsmeriaid sy'n dweud eu bod yn cael trafferth, tra'n gorfod mynd i'r afael â chostau ynni cynyddol eu cangen eu hunain. Disgwyli'r i swyddfeydd post hefyd roi tua 7.8 miliwn o dalebau Cynllun Cymorth y Bil Ynni i 1.3 miliwn o gwsmeriaid ynni rhagdaledig rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth.2023.<sup>25</sup>

## PayOut: Mae gwasanaeth talebau Swyddfa'r Post yn helpu cwsmeriaid cymwys i gael gafael ar arian parod yn gyflym ac yn ddiogel drwy 11,500 o ganghennau

Mae PayOut yn galluogi cwmnïau a sefydliadau i gael arian parod a chymorth i'w cwsmeriaid a'u cleientiaid, yn gyflym ac yn effeithiol. Caiff y gwasanaeth ei alluogi trwy anfon cod syml neu god bar i'w ddefnyddio unwaith yn unig at gwsmer trwy neges destun, e-bost neu lythyr. Gall cwsmeriaid wedyn gyflwyno'r daleb mewn swyddfa bost neu siop Payzone a derbyn arian parod yn syth dros y cownter. Mae'r gwasanaeth yn osgoi'r angen am daliadau banc digidol neu sieciau.

Wrth werthuso gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post mae'n bwysig gosod y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun cyflwr economi'r Deyrnas Gyfunol ym mis Gorffennaf 2022, pan gynhaliwyd yr arolwg defnyddwyr. Mae chwyddiant uchel (10.1% ym mis Gorffennaf 2022 – yr uchaf am 40 mlynedd (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022b)) a'r argyfwng costau byw cysylltiedig wedi arwain at ostyngiadau digyngsail yn incwm gwario aelwydydd (rhagwelir y bydd yn gostwng 2.2% yn 2022-23 (Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 2022), cyflog rheolaidd mewn termau real (gostyngodd 3.0% yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2022 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a) a gostyngodd hyder defnyddwyr (y Mynegai Hyder Defnyddwyr (GfK, 2022) i -41 ym mis Gorffennaf 2022). Yn yr arolwg defnyddwyr, **atebodd 40% o'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn fodlon talu i gefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post fel hyn am na allent ei fforddio.** O ganlyniad, mae'n ymddangos yn debygol bod y canfyddiadau a gyflwynir drwy gydol yr astudiaeth hon yn danamcangyfrif o'u cymharu â chanlyniadau a fyddai wedi'u nodi mewn amgylchiadau economaidd mwy arferol.<sup>26</sup>

24 Diffinnir defnyddwyr agored i niwed fel y rheini sydd ag o leiaf un 'nodwedd o fregusrwydd'. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd ariannol, anabledd, angen cymorth gyda phenderfyniadau ariannol ac eraill. Mae'r diffiniad i ddefnyddwyr yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2021). Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 2.

25 Amcangyfrifon a ddarparwyd gan dîm Cynigion Talu Swyddfa'r Post a Phen-naeth Taliadau.

26 Cyflwynir trafodaeth bellach ar y mater hwn yn Atodiad 2.

## 6.2. Bod o gymorth cefnogol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed

Mae swyddfeydd post hefyd yn cael eu defnyddio'n amlach gan ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed. **Mae bron i ddau o bob pum defnyddiwr agored i niwed yn defnyddio swyddfa bost unwaith y mis neu'n amlach**, o gymharu â thri o bob deg o ddefnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed, ac mae pobl agored i niwed yn fwy tebygol o ddefnyddio eu swyddfa bost leol o leiaf unwaith y mis o gymharu â'r rheini nad ydynt yn agored i niwed. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod cyrhaeddiad cyffredinol rhwydwaith eang o ganghennau Swyddfa'r Post yn hanfodol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

### Astudiaeth achos: mynd y tu hwnt i'r galw ar ran y gymuned yn Rainhill

Mae Swyddfa'r Post bob amser wedi bod yn gefn i grwpiau agored i niwed ac wedi'u hallgáu ledled y DG ac, wrth i wasanaethau symud fwyfwy ar-lein, mae ei rôl a'i wasanaeth personol wedi dod yn bwysicach fyth i'r rheini sydd naill ai'n methu neu'n anfodlon mynd ar-lein.

Ar wahân i ddarparu gwasanaethau hanfodol, mae swyddfeydd post yn aml yn mynd y tu hwnt i'r galw o ran cefnogi cwsmeriaid agored i niwed. Cymerwch y Postfeistr Sara Barlow, sy'n rhedeg Swyddfa Bost Rainhill yng Nglannau Mersi. Mae Sara yn ymfalchïo mewn helpu aelodau bregus o'r gymuned, gan gynnwys y bobl hŷn a phobl ag anableddau.

Ar ôl prynu'r swyddfa bost a'r siop bedair blynedd yn ôl, sylwodd Sara fod rhai o'i chwsmeriaid hŷn wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac yn defnyddio eu hymweliadau fel cyfle i gofrestru a chyfathrebu wyneb yn wyneb.

**"Fe wnaethom sylwi fod rhai cwsmeriaid yn agored i niwed ymhell cyn Covid, ac felly rydym bob amser yn rhoi ychydig mwy o amser iddyn nhw ac yn eu galw i gofrestru.**

**"Os nad ydyn ni wedi gweld rhywun ers tro, rydyn ni'n gofyn i'r cymdogion ddweud wrthyn nhw ein bod ni'n holi amdany nhw, ac yna mae'r cwsmer yn dod i mewn i ddiolch am ymholi."**

Yn ogystal, roedd gan swyddfa bost Sara ychydig o gwsmeriaid byddar. Er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal, dysgodd rywfaifft o iaith arwyddion i'w thîm fel

y gallai'r cwsmeriaid hynny gael mynediad haws at y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt.

"Roedd fy ewythr yn fyddar, ac felly gallaf gynnal sgwrs mewn iaith arwyddion. Dysgon ni'r pethau sylfaenol i'r staff ac roedd ein cwsmeriaid byddar yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Rydyn ni'n gwneud pethau bach fel hyn."

Yn benodol, disgleiriodd ymdrechion Sara wrth helpu cwsmeriaid agored i niwed yn ystod y pandemig. O fewn pythefnos i'r cyhoeddiad clo cyntaf, roedd gan Sara 85 o wirfoddolwyr wrth law i helpu'r gymuned gyda siopa a dosbarthu.

"Roedd yn ymdrech fawr, ond ni chafodd ei chynllunio fel y cyfryw. Roedd y swyddfa bost ar agor, ac felly roedd yn gwneud synnwyr."

Yn 2021, cyflwynwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig i Sara am ei gwasanaeth i'r gymuned a chafodd ei chydabod gan ei chynghor plwyf lleol fel Dinesydd y Flwyddyn.

Dangosir y canfyddiadau hyn yn y gwahaniaeth mewn parodrwydd i dalu i atal y swyddfa bost agosaf rhag symud milltir ymhellach i ffwrdd. **Roedd ddefnyddwyr agored i niwed yn fodlon talu tua 50% yn fwy na ddefnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed i atal eu swyddfa bost agosaf rhag symud milltir i ffwrdd.**

Roedd y pellter i'r gangen swyddfa bost leol yn cael ei werthfawrogi'n arbennig gan y rhai sydd â llai o allu na'r cyffredin (yn ymwneud ag a oes angen cymorth ar yr unigolyn i reoli ei arian, darllen llythyrau, ac ati) a'r rhai sydd ag iechyd gwael.<sup>27</sup>

Roedd gan ymatebwyr agored i niwed hefyd werthusiad sylweddol uwch ar gyfer y gallu i dalu biliau yn Swyddfa'r Post, sef gwasanaeth y mae'r rhai mewn grwpiau demograffig-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddibynnu arno. Y rhai â gwynwch ariannol isel a bennodd y gwerthusiad uchaf ar dalu biliau o blith y grwpiau agored i niwed. Mae hyn yn arbennig o drawiadol o ystyried yr anawsterau ariannol y mae'r grŵp yn eu hwynebu. Mae'r canfyddiadau hyn eto'n dangos sut mae Swyddfa'r Post yn hanfodol mewn cymunedau lleol o ran rhoi cymorth cefnogol i unigolion agored i niwed ac unigolion sydd mewn perygl o gael eu hallgáu.



27 Gweler Atodiad 2 am ddiffiniadau o'r grwpiau hyn.



### 6.3. Dod yn asgwrn cefn seilwaith arian parod a bancio'r Deyrnas Gyfunol

Mae Swyddfa'r Post yn darparu gwasanaethau arian parod a bancio i gwsmeriaid nifer o fanciau'r stryd fawr, gan ganiatáu iddynt godi arian parod a'i adneuo, adneuo sieciau a gwirio balans eu cyfrif cyfredol yn Swyddfa'r Post. Ar wahân, gall cwsmeriaid hefyd dalu amrywiaeth o filiau yn Swyddfa'r Post, gan gynnwys biliau cyfleustodau, rhent tai cymdeithasol, y dreth gyngor a thrwyddedau parcio. Fel y nodir yn fanylach yn Adran 3.3, mae nifer y banciau stryd fawr wedi gostwng yn sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol, sy'n gwneud y gwasanaethau hyn a gynigir yng nghanghennau Swyddfa'r Post yn bwysicach ac sy'n amlygu pwysigrwydd Swyddfa'r Post fel elfen graidd o seilwaith bancio'r Deyrnas Gyfunol.

Mae gwasanaethau arian parod a bancio a'r gallu i dalu biliau mewn swyddfa bost yn bwysig i ddefnyddwyr (nodwyd hyn gan 38% a 23% o ymatebwyr yn y drefn honno). Adlewyrchwyd pwysigrwydd cyffredinol y gwasanaethau hyn hefyd ym mhriadau defnyddwyr, gan y byddai ymatebwyr yn fodlon talu £2.09 yr aelwyd y mis er mwyn dal i allu talu biliau mewn swyddfeydd post. Byddent hefyd yn fodlon talu £1.64 i gadw gwasanaethau arian parod a bancio mewn swyddfeydd post. Er y gallai'r ffigurau hyn ymddangos yn isel, dylid cofio bod rhai grwpiau'n gweld y gwasanaethau hyn yn hanfodol, tra nad yw eraill ag angen mawr amdanynt hyd yma. Mewn gwirionedd, canfuwyd bod y gallu i dalu biliau a chael gwasanaethau arian parod a bancio yn arbennig o bwysig i'r rheini yng ngraddau cymdeithasol C2DE<sup>28</sup> ac i ddefnyddwyr agored i niwed, sy'n debygol o ystyried gwasanaethau Swyddfa'r Post yn hanfodol ar gyfer eu bywydau o ddydd i ddydd:

- Roedd y rhai yng ngradd gymdeithasol C2DE yn rhoi mwy o werth ar y gallu i dalu biliau a chael gwasanaethau arian parod a bancio na'r rheini yng ngradd gymdeithasol ABC1. Roedd y gwahaniaeth rhwng y rhai yng ngradd gymdeithasol C2DE ac ABC1 yn arbennig o amlwg ar gyfer gwasanaethau arian parod a bancio, gydag ymatebwyr C2DE yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn deirgwaith yn fwy nag ymatebwyr ABC1. Yn yr un modd â defnyddwyr agored i niwed, mae'r rhai yng ngradd gymdeithasol C2DE yn dueddol o fod ag incwm is, felly mae'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau hyn hyd yn oed yn fwy wrth ystyried parodrwydd i dalu fel cyfran o incwm yr aelwyd.
- Roedd defnyddwyr agored i niwed hefyd yn rhoi mwy o werth ar y ddau wasanaeth na defnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed (gan gynnwys dwbl y prisiad am arian parod a gwasanaethau bancio). Roedd defnyddwyr agored i niwed hefyd yn fwy tebygol o weld bod darpariaeth y ddau wasanaeth mewn Swyddfa'r Post yn bwysig o gymharu â defnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed, gyda gwahaniaeth o wyth pwynt canran ar gyfer gwasanaethau arian parod a bancio rhwng y grwpiau (42% o gymharu â 34%) ac 11 pwynt canran ar gyfer talu biliau (29% o gymharu â 18%).

Yn olaf, mae defnyddwyr agored i niwed yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hyn mewn swyddfa bost: mae 33% o ddefnyddwyr agored i niwed yn defnyddio arian parod a gwasanaethau bancio mewn swyddfa bost fwy nag unwaith y flwyddyn (o gymharu â 26% o ddefnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed) ac mae 19% yn defnyddio swyddfa bost i dalu biliau (o gymharu â 6% o ddefnyddwyr nad ydynt yn agored i niwed).

Canfu arolwg ar wahân gan YouGov a gynhaliwyd yn 2021 ar ran Swyddfa'r Post fod **15% o unigolion yn dibynnu ar eu cangen leol o Swyddfa'r Post am wasanaethau arian parod a bancio**. Roedd y gwasanaethau hyn yn bwysicach i'r rhai oedd yn ennill llai na £20,000 (23%) a'r unigolion 55 oed a hŷn (20%). Mae mynediad at arian parod hefyd yn bwysicach i'r grwpiau hyn - er y byddai 38% o'r holl ddefnyddwyr yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu heb arian parod, mae hyn yn cynyddu i 47% o'r rhai 55+ oed ac i 46% ar gyfer y rhai ag incwm aelwyd is.

Yn yr un modd, byddai traean o ddefnyddwyr yn llai tebygol o siopa yn eu cymuned leol heb arian parod, ond mae hyn yn cynyddu i 38% o bobl hŷn a 39% o'r rhai ar incwm is. Mae mynediad at arian parod a gwasanaethau bancio sylfaenol yn bwysig i gyfran sylweddol o'r boblogaeth, ond yn enwedig i'r grwpiau hynny sydd yn aml wedi'u hallgáu'n fwy neu'n fwy agored i niwed. Bydd mynediad annigonol i'r grwpiau hyn at arian parod nid yn unig yn cael effaith negyddol ar yr unigolion eu hunain, ond hefyd yn cael effaith ganlyniadol ar fusnesau lleol drwy annog pobl i beidio â gwario yn y gymuned.

### 6.4. Cnoi cil

Mae'r ymchwil hwn yn amlygu sut mae Swyddfa'r Post yn dal i fod yn hanfodol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy ei wasanaethau arian parod a bancio a chaniatáu i bobl dalu biliau. Er y gall y defnydd neu ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn fod wedi'i guddio'n rhannol rhag rhai adrannau o'r boblogaeth, mae'n dangos sut mae rhwydwaith canghennau Swyddfa'r Post yn parhau i fod yn rhan allweddol o seilwaith bancio cenedlaethol y Deyrnas Gyfunol ac yn darparu gwasanaethau hanfodol i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu.

Wrth i fanciau barhau i ddiplannu o'n strydoedd mawr, mae Swyddfa'r Post ar fin dod yn graidd i seilwaith bancio'r Deyrnas Gyfunol drwy ei rwydwaith eang o ganghennau, gan olygu o bosibl hyd yn oed fod dyfodol busnes Swyddfa'r Post yn troi o un sydd wedi'i seilio'n bennaf ar ei wasanaethau post i un sydd, o leiaf, yn rhoi ei ddarpariaeth bancio ar sail gyfartal.

28 Mae gradd gymdeithasol C2DE yn cynnwys y rheini y mae prif enillydd incwm eu haelwyd yn weithiwr llaw, yn weithiwr achlysurol neu'n ddi-waith.

## Cyfeirnodau

- Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). (2021). Business population estimates 2021. Cafwyd o: <https://www.gov.uk/government/statistics/business-population-estimates-2021>
- Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). (2021). Financial Lives 2020 survey: the impact of coronavirus. Cafwyd o: <https://www.fca.org.uk/publication/research/financial-lives-survey-2020.pdf>
- Barton, C. (2021). Constituency data: Population, by age. Cafwyd o: <https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-statistics-population-by-age/>
- Canolfan Ymchwil Economeg a Busnes (2021). Supporting a Global Britain – The Economic impact of Heathrow Airport. Cafwyd o: [https://cebr.com/wp-content/uploads/2021/07/Cebr-Report\\_Heathrow\\_Airport-20210711.pdf](https://cebr.com/wp-content/uploads/2021/07/Cebr-Report_Heathrow_Airport-20210711.pdf)
- Clark, H. a Booth, L. (2021). The Post Office. Cafwyd o: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7550/>
- Clark, H., & Booth, L. (2022). Post office numbers. Cafwyd o: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn02585/>
- Cymdeithas y Siopau Cyfleustra. (2022). Community Barometer. Cafwyd o: <https://www.acs.org.uk/research/community-barometer>
- Growth from Knowledge (GfK). (2022). UK confidence remains at historic low of -41 in July. Cafwyd o: <https://www.gfk.com/en-gb/press/uk-confidence-remains-at-historic-low-of-41-in-july>
- Jorgensen, B.S., Syme, G.J., Bishop, B.J. a Nancarrow, B.E. (1999). Protest Responses in Contingent Valuation. *Environmental and Resource Economics*, 14, 131-150. Cafwyd o: <https://link.springer.com/article/10.1023/A:1008372522243>
- London Economics ac YouGov. (2016). The Social Value of the Post Office Network. London: Department for Business, Energy and Industrial Strategy.
- NERA. (2009). The Social Value of the Post Office Network. London: NERA Economic Consulting.
- Public First. (2020). The Economic and Social Impact of the Post Office. Cafwyd o: <https://postofficeimpact.publicfirst.co.uk/>
- Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (2022). Developments in the outlook for household living standards. Cafwyd o: [https://obr.uk/Blwch/developments-in-the-outlook-for-household-living-standards/#:~:text=The%20rise%20in%20inflation%20to.%2D57%20\(Chart%20F\)](https://obr.uk/Blwch/developments-in-the-outlook-for-household-living-standards/#:~:text=The%20rise%20in%20inflation%20to.%2D57%20(Chart%20F))
- Swyddfa'r Post. (2022, Ebrill 2). Banking Framework 3 Agreement announced. Cafwyd o: [https://corporate.postoffice.co.uk/en/blogs/2022\\_02/banking-framework-3-agreement-announced](https://corporate.postoffice.co.uk/en/blogs/2022_02/banking-framework-3-agreement-announced)
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). UK regional trade statistics: Fourth quarter 2017. Cafwyd o: <https://www.gov.uk/government/statistics/uk-regional-trade-in-goods-statistics-fourth-quarter-2017>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Regional gross value added (income approach). Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/datasets/regionalgrossvalueaddedincomeapproach>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020a). UK input-output analytical tables. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/supplyandusetables/datasets/ukinputoutputanalyticaltables-detailed>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020b). Region by broad industry group (SIC) – Business Register and Employment Survey (BRES): Table 4. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/regionbybroadindustrygroupsicbusinessregisterandemploymentsurveybrestable4>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020c). Regional gross disposable household income, UK: 1997 to 2018. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/economy/regionalaccounts/grossdisposablehouseholdincome/bulletins/regionalgrossdisposablehouseholdincomegdhi/1997to2018#:~:text=UK%20total%20gross%20disposable%20household,GDHI%20in%202018%20at%202.3%25>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021a). Earnings and hours worked, place of work by Parliamentary constituency: ASHE Table 9. <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/placeofworkbyparliamentaryconstituencyashtable9>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021b). Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022a). Average weekly earnings in Great Britain: August 2022. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/averageweeklyearningsingreatbritain/august2022>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022b). CPI ANNUAL RATE 00: ALL ITEMS 2015=100. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/timeseries/d7g7/mm23>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022c). Families and households in the UK: 2021. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2021>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022d). Internet sales as a percentage of total retail sales (ratio) (%). Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/retailindustry/timeseries/j4mc/drsi>
- Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022e). Regional gross domestic product: All ITL regions—Office for National Statistics. Cafwyd o: <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/datasets/regionalgrossdomesticproductallnutslevelregions>
- Weisbrod, G., & Weisbrod, B. (1997). Measuring economic impacts of projects and programs. *Economic Development Research Group*, 10, 1–11.
- Which? (2022). Bank branch closures: Is your local bank closing? Cafwyd o: <https://www.which.co.uk/money/banking/switching-your-bank/bank-branch-closures-is-your-local-bank-closing-a28n44c8z0h5>

## Mynegai o Dablau, Ffigurau a Blychau

### Tablau

Tabl 1	Gwerth Rhwydwaith Swyddfa'r Post i aelwydydd	40
Tabl 2	Amrywiad yn y paroddrwydd i dalu am rwydwaith Swyddfa'r Post i aelwydydd (y mis) yn dibynnu ar y diffiniad o ymatebion protest	40
Tabl 3	Gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon o werth cymdeithasol rhwydwaith Swyddfa'r Post yn astudiaethau London Economics (2022) a London Economics a YouGov (2016) yn ôl y model a ddefnyddiwyd	41

### Ffigurau

Ffigur 1	Effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant canghennau Swyddfa'r Post ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Gyfunol, fesul person ac yn gyffredinol, 2021- 22	10
Ffigur 2	Effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant canghennau Swyddfa'r Post fesul person sy'n tarddu o bob etholaeth seneddol yn y Deyrnas Gyfunol	11
Ffigur 3	Swyddi CALI a gefnogir gan Swyddfa'r Post yn ôl rhanbarth, 2021-2022	12
Ffigur 4	Gwariant mewn manau eraill yn ystod ymweliad â Swyddfa Bost ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Gyfunol, fesul person ac yn gyffredinol, 2021-22	18
Ffigur 5	Yr effaith ar berfformiad ariannol siopau manwerth os nad oedd eu swyddfa bost bellach yn rhan o'u busnes	19
Ffigur 6	Pwysigrwydd i ddefnyddwyr o fod gerllaw ac yn gyfleus i wasanaethau dethol a gynigir gan Swyddfa'r Post (ni waeth gan bwy y cânt eu darparu)	24
Ffigur 7	Argaeledd dewisiadau ar wahân i Swyddfa'r Post ar gyfer gwasanaethau post	25
Ffigur 8	Llwybr arolwg ar gyfer cwestiynau prisiad amodol y rhwydwaith	36
Ffigur 9	Cerdyn dewis enghreifftiol ar gyfer yr arbrawf dewis gwasanaethau	37

### Blychau

Blwch 1	Canfyddiadau allweddol: rhwydwaith cenedlaethol sy'n darparu gwerth economaidd cenedlaethol	8
Blwch 2	Canfyddiadau allweddol: y rhan nas gwelir o seilwaith economaidd y Deyrnas Gyfunol	13
Blwch 3	Astudiaeth achos: cefnogi busnes lleol	15
Blwch 4	Rôl swyddfeydd post wrth gynnal y stryd fawr	17
Blwch 5	Astudiaeth achos: darparu gwasanaethau bancio hanfodol yn Rochford	20
Blwch 6	Canfyddiadau allweddol: y swyddfa bost yn ganolbwynt i gymdeithas a defnyddwyr yn y gymuned	21
Blwch 7	Astudiaeth achos: pecyn annatod i'r gymuned leol ym Mhontrilas	22
Blwch 8	Canfyddiadau allweddol: cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hallgáu yn ein cymdeithas	26
Blwch 9	PayOut: Mae gwasanaeth talebau Swyddfa'r Post yn helpu cwsmeriaid cymwys i gael gafael ar arian parod yn gyflym ac yn ddiogel drwy 11,500 o ganghennau	27
Blwch 10	Astudiaeth achos: mynd y tu hwnt i'r galw ar ran y gymuned yn Rainhill	28



## Atodiad 1 Aseiad o'r effaith economaidd

### A1.1 Methodoleg

#### Trosolwg

Mae modelu'r effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystyried yr effaith y cafodd gwariant a chyflogaeth Swyddfa'r Post ar y Deyrnas Gyfunol ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Cyfrifwyd effaith uniongyrchol Swyddfa'r Post o ran gwariant a swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd gan ddefnyddio cyfuniad o ddata mewnlol Swyddfa'r Post a ddarparwyd i London Economics ac arolwg ar-lein o Bostfeistri a wnaed gan London Economics.

Cyfrifwyd gwariant Swyddfa'r Post ar wahân ar gyfer y rhwydwaith o ganghennau a Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

#### Arolwg Postfeistri

Gwnaed yr arolwg Postfeistri dros gyfnod o bedair wythnos rhwng 20 Mehefin a 18 Gorffennaf 2022 a chafwyd cyfanswm o 295 o ymatebion cyflawn, o gyfanswm o 11,534 o ganghennau agored a gweithredol (ym mis Mawrth 2022), sy'n cynrychioli tua 2.6% o'r holl ganghennau. Cafwyd 202 o ymatebion rhannol pellach (h.y., ymatebion y cychwynnwyd yr arolwg ar eu cyfer, ond nas cwblhawyd) y gellid defnyddio rhywfaint o ddata ar eu cyfer. Roedd cynnwys yr ymatebion ychwanegol hyn yn golygu bod y gyfradd ymateb ar gyfer rhai cwestiynau wedi cyrraedd 4.3%. Roedd canlyniadau'r arolwg Postfeistri a gafodd eu bwydo i mewn i'r cyfrifiad o effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig Swyddfa'r Post, yn darparu data ar y gwariant ychwanegol yn y siopau gan y rhai sy'n ymweld â changhennau, yn ogystal â gwybodaeth am

hyfywedd ariannol siopau Swyddfa'r Post.

Defnyddiwyd canlyniadau arolygon heb eu pwysoli, gan y byddai pwysoli'r canlyniadau'n peri risg o orbwysoli rhai arsylwadau, oherwydd maint bach y sampl.

#### Gwariant y rhwydwaith canghennau

Cyfrifwyd gwariant y rhwydwaith o ganghennau ar gyfer pob cangen asiantaeth a gafodd dâl yn 2021-22 (yr oedd 10,550<sup>29</sup> ohonynt), yn ogystal â'r 117 o ganghennau a reolir yn uniongyrchol (DMBau), sy'n cael eu rhedeg gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Darparwyd gwariant y DMBau yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Post. Fodd bynnag, nid oedd data ar gael ar gyfer gwariant canghennau asiantaeth; tybiwyd bod tâl Postfeistri yn gyfartal â gwariant y gangen a oedd yn ymwneud â Swyddfa'r Post. Mewn geiriau eraill, roedd lefel y tâl a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Post yn cwmpasu'n union y costau staffio a'r costau nad ydynt yn ymwneud â staffio sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Gofynnodd yr arolwg Postfeistri yn benodol am wybodaeth ynghylch dadansoddiad o gostau gwahanol canghennau Swyddfa'r Post, a oedd yn caniatáu i'r cyfanswm gwariant hwn gael ei ddadansoddi yn ôl gwariant staff a gwariant nad yw'n wariant ar staff ar gyfer dadansoddiad wedyn.

Yn ogystal â gwariant staff a gwariant nad yw'n ymwneud â staff, dirprwywyd y stoc o gynhyrchion Swyddfa'r Post a brynwyd; gwnaed hynny wrth ddefnyddio gwerth nwyddau Post a werthwyd gan Swyddfa'r Post yn 2021-22, a oedd

<sup>29</sup> Mewn rhai achosion, caiff canghennau allgymorth eu cyfuno â'u canghennau asiantaeth 'rhiant' at ddibenion tâl, gan fod tâl yn cael ei gyfrifo ar lefel y gangen 'rhiant'. Am y rheswm hwn, mae nifer y canghennau asiantaeth sydd â thâl yn is na chyfanswm nifer y canghennau.



yn cynnwys Label & Signed for; Stampiau; Special Delivery; Rhyngwladol Blaenoriaethol a Safonol; Parcellforce; a masnachu arall sy'n gysylltiedig â'r Post. Roedd angen mabwysiadu'r agwedd hon, gan y byddai busnes arferol yn prynu stoc, a byddai'r gwariant hwn yn creu effaith crychdonni drwy'r economi ymhlith y busnesau hynny sy'n cyflenwi'r stoc i ganghennau Swyddfa'r Post. Fodd bynnag, mae canghennau Swyddfa'r Post yn cael stoc Post, yn hytrach na gorfod ei brynu'n uniongyrchol, ac felly nid yw eu tâl yn adlewyrchu'n uniongyrchol yr elfen hon o'r gwerth economaidd a ddarperir. Er enghraifft, pan fydd cangen Swyddfa'r Post yn gwerthu stamp, mae gwerth economaidd yn cael ei gynhyrchu y tu hwnt i'r trafodiad hwnnw'n unig, gan fod prynu'r stamp yn darparu incwm i'r Post Brenhinol, sydd wedyn yn cyflogi gweithwyr ac yn prynu peiriannau, ac wedyn yn talu ei gyflenwyr ei hun, gan greu effaith crychdonni drwy'r economi.

Mae cyfanswm gwerth incwm Post i Swyddfa'r Post (h.y., y swm y mae Swyddfa'r Post yn ei gymryd o bob nwyddau Post a werthir) yn cael ei dynnu o gyfanswm gwerth y nwyddau Post a werthwyd er mwyn osgoi cyfrif dwbl, gan fod y gwerth hwn eisoes wedi'i gyfrifo yng ngwariant y gangen a Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Neilltuwyd gwerth nwyddau Post i bob cangen, yn seiliedig ar ei hincwm Post, a oedd yn caniatáu i luosyddion economaidd rhanbarthol a sectoraidd gael eu cymhwyso i'r canlyniadau.

Yn gyfan gwbl, mae 73% o effaith uniongyrchol Swyddfa'r Post yn deillio o stoc y nwyddau Post, tra bod 15% yn dod o wariant ar staff a 12% o wariant nad yw'n wariant ar staff.

### Gwariant Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Cyfrifwyd gwariant Swyddfa'r Post Cyfyngedig drwy ddefnyddio data fesul uned fusnes, a ddarparwyd gan Swyddfa'r Post. Er mwyn cymhwyso lluosyddion economaidd rhanbarthol a sectoraidd i'r canlyniadau, bu'n rhaid neilltuo'r gwariant i leoliadau. Neilltuwyd gwariant Swyddfa'r Post Ganolog i leoliadau yn seiliedig ar ganllawiau gan Swyddfa'r Post (er enghraifft, eglurwyd pa wariant oedd yn ymwneud â phrif safleoedd gweinyddol Llundain a Chesterfield). Mewn achosion lle nad oedd yn glir i ble y dylid neilltuo gwariant, roedd y dyraniad yn seiliedig ar naill

ai incwm y gangen neu ddsbarthiad staff CALI.

Roedd peth gwariant ar feddalwedd, a gronnwyd yn bennaf gan sefydliadau tramor, hefyd wedi'i eithrio o'r cyfanswm gwariant, gan na fyddai'n creu effaith economaidd yn y Deyrnas Gyfunol.

### Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gefnogwyd

Cyfrifwyd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd gan Swyddfa'r Post yn 2021-22 drwy gyfuniad o'r arolwg Postfeistri a data a ddarparwyd gan Swyddfa'r Post. Cyfrifwyd nifer y staff CALI sy'n gweithio mewn canghennau asiantaeth drwy'r arolwg Postfeistri, lle defnyddiwyd nifer cyfartalog y staff CALI yn ôl y math o gangen. Darparwyd nifer y staff CALI sy'n gweithio mewn DMBau yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Post. Darparwyd dadansoddiad o gyflogaeth gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig, Payzone ac Yswiriant Swyddfa'r Post hefyd. Roedd gan bob aelod o staff CALI leoliad yn gysylltiedig â nhw, a oedd wedyn yn cael ei baru i etholaeth a rhanbarth seneddol gan ddefnyddio cyfuniad o godau post a ddarparwyd gan Swyddfa'r Post, ac ymchwil ddesg. Pan nad oedd modd paru lleoliadau (er enghraifft, staff 'maes'), cawsant eu neilltuo i etholaethau a rhanbarthau seneddol yn seiliedig ar ddsbarthiad incwm cangen.

### Cymhwyso lluosyddion economaidd

Amcangyfrifwyd effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant Swyddfa'r Post drwy ddefnyddio lluosyddion economaidd sy'n deillio o dablau Mewnbwn-Allbwn, sy'n mesur cyfanswm allbwn cynhyrchu pob diwydiant yn economi'r Deyrnas Gyfunol, a'r llifau nwyddau rhyng-ddiwydiant (ac oddi mewn i ddiwydiant unigol) a ddefnyddir ac a gynhyrchir gan bob sector<sup>30</sup>. Mewn geiriau eraill, mae'r tablau hyn yn dangos i ba raddau y mae gwahanol sectorau o fewn economi'r Deyrnas Gyfunol wedi'u cysylltu, h.y., i ba raddau y mae newidiadau yn y galw am allbwn unrhyw un sector yn effeithio ar bob sector arall o'r economi. Er mwyn gallu cael dadansoddiad fesul rhanbarth, fe wnaethom ddatblygu model Mewnbwn-Allbwn aml-ranbarthol, gan gyfuno tablau Mewnbwn-Allbwn lefel y DG (ar gyfer 2016<sup>31</sup>) ag ystod o ddata ar lefel ranbarth<sup>32</sup> i gael dadansoddiad gronynnog fesul sector<sup>33</sup> a rhanbarth<sup>34</sup>.

30 Yn benodol, mae'r dadansoddiad yn defnyddio lluosyddion Math II, a ddiffinnir fel [Effaith Uniongyrchol + anuniongyrchol + ysgogedig]/[Effaith uniongyrchol].

31 Gweler Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020a). 2016 oedd y flwyddyn ddiweddaraf yr oedd yr wybodaeth hon ar gael ar ei chyfer pan gynhaliwyd y dadansoddiad.

32 Syniad sylfaenol y dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn aml-ranbarthol yw bod galw rhanbarth i am allbwn rhanbarth j yn gysylltiedig â'r ffrithiant sy'n ymwneud â chcludiant o un rhanbarth i'r llall (yr ydym yn ei ddirprwyo yn ôl y pellter rhwng y ddau ranbarth), a bod modd esbonio masnach draws-ranbarthol gan werth ychwanegol crynswth cymharol y sector ym mhob rhanbarth. Lluniwyd y model Mewnbwn-Allbwn aml-ranbarthol trwy gyfuno tablau Mewnbwn-Allbwn lefel y DG â data pellteroedd daearyddol rhwng rhanbarthau; GYC a digolledu cyflogaeth fesul sector a rhanbarth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019); cyflogaeth fesul sector a rhanbarth (Y Swyddfa Gymreig, 2020b); incwm gwario crynswth aelwydydd fesul rhanbarth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020c); poblogaeth yn ôl rhanbarth (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b); a mewnforyn y DG i bob rhanbarth ac allforyn gan bob rhanbarth, fesul nwydd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018).

33 O ran dadansoddiad sector, mae tablau Mewnbwn-Allbwn gwreiddiol y DG wedi'u rhannu'n 64 sector (cymharol ronynnog). Fodd bynnag, nid yw'r (ystod eang o) ddata lefel ranbarthol sydd ei angen i gynhyrchu'r model Mewnbwn-Allbwn aml-ranbarthol ar gael ar gyfer dadansoddiad sector gronynnog o'r fath. Yn lle hynny, mae'r model Mewnbwn-Allbwn aml-ranbarthol wedi'i rannu'n 10 grŵp sector lefel uchel ychwanegol.

34 Er bod dadansoddiadau Mewnbwn-Allbwn yn arf defnyddiol i asesu cyfanswm yr effeithiau economaidd a gynhyrchir gan ystod eang o weithgareddau, mae'n bwysig nodi nifer o gyfyngiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r math hwn o ddadansoddiad. Mae dadansoddiadau Mewnbwn-Allbwn yn rhagdybio bod mewnbwnau yn gyflenwadau cyffwrdd, a bod cysondeb mewn enillion yn ôl graddfa yn y broses gynhyrchu (h.y. nad oes unrhyw fanteision o ran cost pan fo cynhyrchu yn effeithlon). Dehongliad y tybiaethau hyn yw bod y dadansoddiad cyffredinol o fewnbwnau o bob sector (gweithwyr, a mewnforyn) yn 2016 yn frasamcan da o'r dadansoddiad a fyddai'n bodoli pe bai cyfanswm y galw (ac felly allbwn) ychydig yn wahanol. Yn ogystal, nid yw dadansoddiadau Mewnbwn-Allbwn yn gyfrifol am unrhyw effaith o ran pris sy'n deillio o newid yn y galw am ddiwydiant/allbwn penodol.

Defnyddiwyd lluosyddion sectoraidd ar gyfer y sectorau dosbarthu, trafndiaeth, gwestai a bwytaï<sup>35</sup>, tra bod y rhanbarth wedi'i ganfod drwy godau post y canghennau a'r broses paru rhanbarth a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol.

### **Effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig**

Rhoddir yr effaith economaidd yn nhermau effaith gros, uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gwariant Swyddfa'r Post. Effaith grynswth yw'r effaith hon, yn hytrach nag effaith net, gan na all roi ystyriaeth lawn i unrhyw ddadleoli na gwariant ychwanegol. Mewn geiriau eraill, ni wyddys a yw gwariant Swyddfa'r Post mewn rhanbarth yn peri i wariant leihau mewn rhannau eraill o'r rhanbarth hwnnw (dadleoli), neu a fyddai gwariant Swyddfa'r Post yn cael ei wneud gan gwmnïau eraill pe na bai'n bodoli (ychwanegolrwydd).

Mae asesu effaith uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig Swyddfa'r Post yn ystyried Swyddfa'r Post Cyfyngedig a changhennau Swyddfa'r Post fel unedau economaidd sy'n creu allbwn yn eu heconomïau lleol drwy brynu cynnyrch a gwasanaethau gan eu cyflenwyr a chyflogi gweithwyr.

- Effaith uniongyrchol: Mae hyn yn ystyried yr allbwn economaidd a gynhyrchir gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig a changhennau Swyddfa'r Post, drwy brynu nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys llafur) o'r economi y mae'n gweithredu ynddi. Enghreifftiau o'r gwariant uniongyrchol hwn yw cyflogau gweithwyr Swyddfa'r Post, gwariant ar stoc ar gyfer canghennau Swyddfa'r Post, neu filiau cyfleustodau ar gyfer canghennau Swyddfa'r Post.

- Effaith anuniongyrchol: Mae pryniannau Swyddfa'r Post yn cynhyrchu incwm i'r diwydiannau cyflenwi, ac maent hwy yn eu tro yn ei wario ar brynu eitemau gan gyflenwyr i fodloni gofynion Swyddfa'r Post. Mae hyn eto'n arwain at adwaith cadwynol o rowndiau gwariant dilynol ar draws diwydiannau, neu effaith crychdonni. Er enghraifft, os bydd Postfeistr yn prynu offer ar gyfer eu cangen gan Swyddfa'r Post, yna bydd incwm yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cyflenwr yr offer hwnnw, a fydd wedyn yn prynu mewnbynnau i fodloni gofynion ei hunan.
- Effaith ysgogedig: Mae staff Swyddfa'r Post a staff busnesau sy'n gweithredu yng nghadwyn gyflenwi Swyddfa'r Post yn defnyddio eu cyflogau i brynu nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr o fewn yr economi. Mae hyn yn ei dro yn cynhyrchu incwm cyflog i weithwyr o fewn y diwydiannau sy'n cynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn, sydd wedyn yn gwario eu hincwm eu hunain ar nwyddau a gwasanaethau – gan arwain at effaith crychdonni pellach drwy'r economi gyfan. Er enghraifft, efallai y bydd staff Swyddfa'r Post yn gwario rhywfaint o'u hincwm yn eu harchfarchnad leol, sy'n helpu i gefnogi swyddi'r rheini yn eu harchfarchnad leol. Bydd y gweithwyr archfarchnad hynny wedyn yn defnyddio eu cyflogau i brynu nwyddau a gwasanaethau ledled yr economi, sef effaith ysgogedig gwariant.

<sup>35</sup> Dewiswyd y grŵp sector hwn, oherwydd barnwyd bod Swyddfa'r Post o dan y dosbarthiad diwydiannol safonol o weithgareddau economaidd (SIC) cod 53100 (Gweithgareddau post o dan rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol), sydd o fewn y sector 'dosbarthu, trafndiaeth, gwestai a bwytaï'.



## Atodiad 2 Gwerth cymdeithasol

### A2.1 Methodoleg

#### Arolwg defnyddwyr

Er mwyn mesur gwerth cymdeithasol Swyddfa'r Post, gwnaed arolwg cynrychioliadol o 2,044 o ddefnyddwyr gan YouGov ym mis Gorffennaf 2022. Prif elfennau'r arolwg oedd cwestiynau ynghylch parodrwydd i dalu, gan gynnwys prisiad amodol ac arbrefion dewis arwahanol, gan ganolbwyntio ar bynciau fel rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd, y gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Post a phellter y swyddfa bost agosaf o gartrefi'r ymatebwyr.

Ochr yn ochr â'r cwestiynau hyn, gofynnwyd i ymatebwyr am eu defnydd o swyddfeydd post. Edrychodd y cwestiynau hyn ar bynciau gan gynnwys sut mae ymatebwyr yn teithio i'w swyddfa bost leol, y nodweddion y maent yn eu gwerthfawrogi mewn swyddfeydd post a'u defnydd o amrywiaeth o wasanaethau Swyddfa'r Post. Gofynnwyd i'r rhain ddarparu rhagor o wybodaeth ansoddol ynghylch gwerth Swyddfa'r Post i ddefnyddwyr, a hefyd i ddilysu'r ymatebion i'r cwestiynau priso.

#### Arolwg Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau)

I ategu canlyniadau'r arolwg defnyddwyr, ymgwymerodd YouGov ag arolwg cynrychioliadol o 1,017 o fentrau bach a chanolig (BBaCh) ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2022, lle bu gweithwyr ar lefel uwch-reolwyr neu uwch yn ateb cwestiynau ar ran eu busnes. Yn yr arolwg hwn, gofynnwyd yr un cwestiynau priso yn ôl blaenoriaeth a nodwyd yn yr arolwg defnyddwyr, yn ogystal â chwestiynau tebyg ynghylch defnydd busnes yr ymatebydd o swyddfeydd post.

#### Prisiad amodol rhwydwaith

Nod y prisiad amodol cyntaf oedd canfod y swm cyfartalog y byddai aelwydydd (neu BBaChau) yn fodlon ei dalu bob mis er mwyn cynnal y rhwydwaith Swyddfa'r Post presennol, o gymharu â sefyllfa lle byddai pob swyddfa bost yn cau. Cafodd y taliad ei fframio fel treth, fel mewn astudiaethau blaenorol tebyg. Roedd fformat y prisiad amodol fel a ganlyn ac fe'i dangosir yn Ffigur 8, tudalen 36:

1. **Dewis deuol un ffin (SBDC).** Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf a fyddent yn derbyn treth fisol benodol i gynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post, (neu'n talu dim treth ychwanegol a fyddai'n arwain at gau pob Swyddfa Bost). Cafodd swm y dreth ei haposod ar draws ymatebwyr, dros wyth lefel wahanol: £1, £6, £11, £16, £24, £32, £42, a £52. Cyfeirir at y cwestiwn hwn yn unig fel 'dewis deuol un ffin' (SBDC).

2. **Dewis deuol â ffin ddwbl (DBDC).** Ar ôl ateb y cwestiwn cyntaf, cyflwynwyd ail swm i'r ymatebwyr a gofynnwyd a fyddent yn talu'r swm hwnnw. Roedd yr ail swm yn seiliedig ar eu hateb i'r cwestiwn cyntaf: pe baent yn nodi y byddent yn talu'r swm cyntaf, roedd yr ail swm yn uwch, ac os na, roedd yn is. Er enghraifft, cynigiwyd £0.50 i'r rhai a wrthododd £1, a chynigiwyd £6 i'r rhai a dderbyniodd £1. Cyfeirir at y cwestiwn cyntaf a'r ail gwestiwn gyda'i gilydd fel 'dewis deuol â ffin ddwbl'. (DBDC).
3. **Prisiad amodol (CV) penagored â ffin.** Ar ôl y cwestiynau dewis deuol, gofynnwyd cwestiwn ymateb-agored wedyn i'r ymatebwyr, er mwyn iddynt nodi uchafswm y dreth y byddent yn fodlon talu i gynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post. Roedd yr rhaid i'r atebion fod yn gyson â'r atebion a roddwyd i'r cwestiynau dewis deuol (e.e., pe bai rhywun yn gwrthod £11 ond yn derbyn £6, yna byddai'n rhaid i'w hateb i'r cwestiwn agored fod rhwng £6 ac £11).


Mae fformat y cwestiwn prisiad amodol yn golygu bod modd cyfrifo PiD (parodrwydd i dalu) cyfartalog mewn tair ffordd: o ddata'r SBDC yn unig, o ddata DBDC (gan gyfuno'r ddau ymateb dewis deuol), ac o'r ymatebion agored â ffiniau.

Gellir cyfrifo PiD cyfartalog o ddata'r SBDC gan ddefnyddio model probid. Mae hwn yn defnyddio'r tebygolrwydd cymharol o ddewis talu'r dreth ar y gwahanol lefelau o dreth i bennu cyfartaledd y parodrwydd i dalu.

Yn seiliedig ar ddata DBDC, gellir cael amcangyfrifon PiD cyfartalog drwy ffwythiant tebygolrwydd, sef defnyddio amcangyfrif o'r tebygolrwydd mwyaf. Mae'r dull hwn yn fwy derbyniol na'r model SBDC am ei fod yn defnyddio mwy o wybodaeth (h.y. y ddau ddewis deuol).

O'r data penagored â ffin, gellir cyfrifo PiD cyfartalog trwy gymryd cymedr yr ymatebion. Mae'r dull hwn yn defnyddio'r cwestiynau dewis deuol (yn anuniongyrchol i sefydlu ffiniau'r ymatebion agored) ac ar ben hynny mae'n caniatáu i bob ymatebydd unigol roi union werth eu PiD. Y dull hwn yw ein prif ddull o amcangyfrif gwerth y rhwydwaith, gan ei fod yn defnyddio mwy o wybodaeth na'r modelau SBDC a DBDC ac oherwydd sensitifrwydd y model DBDC i'r diffiniad o ymatebion protest (a drafodir ymhellach yn A2.2).

**Ffigur 8** Llywybr arolwg ar gyfer cwestiynau prisiad amodol y rhwydwaith



Ffynhonnell: Dadansoddiad London Economics.

### Prisiad amodol o bellter

Edrychodd ail gwestiwn prisiad amodol ar y dreth gyfartalog fesul cartref (neu BBaCh) y mis y byddai ymatebwyr yn fodlon ei thalu i atal eu Swyddfa Bost agosaf rhag symud milltir ymhellach i ffwrdd. Yn wahanol i arbrawf prisiad amodol y rhwydwaith, ni ofynnwyd cwestiwn penagored (oherwydd cyfyngiad hyd yr arolwg, ac felly dim ond y model DBDC a ddefnyddiwyd gan fod hwn yn defnyddio mwy o wybodaeth na'r model SBDC). Yn yr achos hwn, cynigiwyd pedwar swm cychwynnol a ddewiswyd ar hap: £2.50, £5, £10, a £15. Unwaith eto, cynigiwyd swm uwch wedyn (£5, £10, £15 neu £20) i ymatebwyr os oeddent wedi derbyn y swm cychwynnol, neu cynigiwyd swm is (£0.50, £2.50, £5 neu £10) os oeddent wedi gwrthod.

### Arbrawf dewis gwerth gwasanaethau

Yn nesaf, roedd arbrawf dewis yn gofyn i ymatebwyr wneud cyfres o ddewisiadau rhwng dau opsiwn a oedd yn amrywio yn ôl y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan Swyddfa'r Post (gweler Ffigur 9 am gerdyn dewis enghreifftiol). Ym mhob dewis, roedd pob gwasanaeth naill ai gan Swyddfa'r Post, neu beidio (h.y., roedd y lefelau priodoledd yn ddeuaidd). Cafodd wyth gwasanaeth gwahanol eu cynnwys yn yr arbrawf dewis hwn, a oedd fel a ganlyn (mae disgrifiadau manwl o'r gwasanaethau ym mhob categori yn A2.3):

- Gwasanaethau post
- Dychwelyd a chasglu siopa ar-lein
- Gwasanaethau arian parod a bancio neu adneuo arian parod
- Cynhyrchion teithio ac arian tramor
- Cynhyrchion gwasanaethau ariannol ehangach, gan gynnwys yswiriant a thaliadau rhyngwladol
- Talu biliau (e.e., cyfleustodau, treth y cyngor, taliadau cyngor lleol)
- Gwasanaethau hunaniaeth
- Gwasanaethau'r Llywodraeth

- Roedd gan bob opsiwn gost cysylltiedig, sef treth misol yr aelwyd (neu BBaCh) i gynnal y rhwydwaith. Roedd chwe phris gwahanol yn bosibl i'r dreth ddaladwy ar gyfer yr opsiwn: £0, £2.50, £5, £10, £15, ac £20. Gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud chwech o'r dewisiadau hyn, a dyranwyd y dewisiadau hyn ar hap yn seiliedig ar ddeg set o ddewisiadau posibl.

Yn seiliedig ar y data o'r dewisiadau hyn, amcangyfrifwyd model logit amodol, gyda darpariaeth pob gwasanaeth a'r cyfraniad treth a delid i gefnogi'r rhwydwaith yn newidynnau esboniadol. Roedd y newidynnau gwasanaeth yn ddeuaidd, gan gymryd gwerth 1 os darperir y gwasanaeth a 0 fel arall. Gan ddilyn y weithdrefn safonol ar gyfer amcangyfrif PiD o ddata arbrefion dewis, trwy gymryd cymhareb cyfernodau pob newidyn gwasanaeth a'r newidyn treth, gallwn gael y parodrwydd cyfartalog i dalu i sicrhau bod y gwasanaeth a roddir yn cael ei ddarparu gan rwydwaith Swyddfa'r Post, mewn treth y mis fesul aelwyd (neu BBaCh).





**Ffigur 9** Cerdyn dewis enghreifftiol ar gyfer yr arbrawf dewis gwasanaethau

	Opsiwn 1	Opsiwn 2
Gwasanaethau post	✓	✗
Dychwelyd a chasglu siopa ar-lein	✓	✗
Gwasanaethau arian parod a bancio neu adneuo arian parod	✓	✗
Cynhyrchion teithio ac arian tramor	✓	✗
Cynhyrchion gwasanaethau ariannol ehangach, gan gynnwys yswiriant a thaliadau rhyngwladol	✓	✓
Talu biliau (e.e. cyfleustodau, treth y cyngor, taliadau cyngor lleol)	✗	✓
Gwasanaethau hunaniaeth	✓	✗
Gwasanaethau'r Llywodraeth	✗	✓
Fel rhan o'r trethi y mae eich aelwyd yn eu talu, rydych yn cyfrannu taliad o...	£10 y mis	£5 y mis

Ffynhonnell: London Economics ac YouGov.

### Arbrawf dewis pellter

Gofynnodd yr arbrawf terfynol i ymatebwyr wneud dewisiadau lle'r oedd y pellter o'u cartref i'r Swyddfa Bost agosaf sy'n darparu pob gwasanaeth yn amrywio. Yn yr arbrawf hwn gallai'r newidynnau gymryd pum gwerth gwahanol sy'n cynrychioli pellter (damcaniaethol) pob gwasanaeth o gartref yr ymatebydd. Y gwerthoedd hyn oedd 0.2 milltir, 1 milltir, 3 milltir, 5 milltir a 7 milltir. Oherwydd cymhlethdod uwch y dewisiadau hyn, dim ond pedwar gwasanaeth a gynhwyswyd yn yr arbrawf hwn, a oedd fel a ganlyn (darperir disgrifiadau manwl o'r gwasanaethau yn mhob categori yn A2.3):

- Gwasanaethau post
- Arian parod a bancio
- Gwasanaethau Llywodraeth a hunaniaeth
- Cyfnewid arian tramor a throsglwyddo arian

Fel yn yr arbrawf dewis gwerth gwasanaethau, roedd pob opsiwn yn cynnwys cost o ran y dreth y mis a gyfrannwyd gan yr aelwyd (neu BBaCh), sef £0, £2.50, £5, £ 10, £15, ac £20. Unwaith eto gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud chwe dewis, a ddyrannwyd ar hap yn seiliedig ar 10 set o ddewisiadau posibl.

Defnyddiwyd yr un dull dadansoddi ag a ddisgrifiwyd uchod mewn perthynas â'r arbrawf dewis gwerth gwasanaethau (h.y., amcangyfrif model logit amodol a chymryd cymarebau cyfernodau perthnasol) i amcangyfrif PiD. Yn yr achos hwn mae'r canlyniadau'n cynrychioli'r prisiad cyfartalog sy'n gysylltiedig â chynyddran o 1 filltir yn y pellter i wasanaeth penodol mewn Swyddfa Bost.

### Dadansoddiad is-grŵp – defnyddwyr

Gwnaed yr arbrofion hyn gyntaf ar bawb a ymatebodd, ac yna cawsant eu hailadrodd ar nifer o is-grwpiau o'r boblogaeth. Roedd yr is-grwpiau hyn yn cynnwys y nodweddion a ganlyn:

- Agored i niwed, a phob un o'r pedwar categori perthnasol (gallu, gwytnwch, digwyddiadau bywyd ac iechyd). Isod, mae rhagor o fanylion am hyn
- A yw ymatebwyr yn ei chael hi'n hawdd cael dau ben llinyn ynghyd
- Oedran
- Trefoldeb
- Rhyw
- Dosbarth cymdeithasol
- Incwm yr aelwyd
- Pa mor aml y mae ymatebwyr yn defnyddio swyddfa bost
- A yw ymatebwyr yn nodi bod pob gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa'r Post yn bwysig i'w haelwyd
- A yw ymatebwyr yn defnyddio pob gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa'r Post fwy nag unwaith y flwyddyn
- Sut mae ymatebwyr yn teithio i'w swyddfa bost leol
- Pa mor bell y mae ymatebwyr yn teithio i fynd i'w swyddfa bost leol

## Defnyddwyr agored i niwed

Mae'r diffiniad o ddefnyddiwr agored i niwed a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn ceisio adlewyrchu diffiniad a ddefnyddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2021). Yn yr arolwg defnyddwyr, gofynnwyd i ymatebwyr am nifer o nodweddion sy'n dynodi bod yn agored i niwed, ac os oedd un neu fwy o'r nodweddion hyn yn berthnasol iddynt, cawsant eu diffinio fel defnyddiwr agored i niwed yn ein dadansoddiad. Gellid rhoi defnyddwyr agored i niwed mewn pedwar categori: gallu, gwytnwch, digwyddiadau bywyd ac iechyd. Mae bod yn agored i niwed o dan y categorïau hyn yr un fath â bod yn agored i niwed yn gyffredinol; er enghraifft, diffinnir ymatebydd fel un sy'n agored i niwed o ran 'gallu' os yw un neu fwy o'r nodweddion gallu yn berthnasol iddo. Mae'r nodweddion a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon, a'r categori agored i niwed y maent yn berthnasol iddo, fel a ganlyn:

- Gallu:
  - Pan ofynnwyd a yw'r ymatebydd yn hyderus wrth reoli cyllid yr aelwyd, mae'r ateb rhwng sero a thri allan o ddeg
  - Mae angen cymorth ar yr ymatebydd i ddarllen llythyrau
  - Mae angen cymorth ar yr ymatebydd i wneud penderfyniadau ariannol
  - Nid yw'r ymatebydd yn hyderus yn defnyddio'r rhyngwyd i reoli eu harian
- Gwytnwch:
  - Gallai aelwyd yr ymatebydd barhau i dalu am hanfodion am lai nag wythnos pe bai'r aelwyd yn colli ei phrif ffynhonnell incwm
- Digwyddiadau bywyd:
  - Mae'r ymatebydd wedi profi un o'r digwyddiadau bywyd canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf:
    - Colli incwm neu gynydd mewn anhawster ariannol
    - Perthynas yn chwalu neu brofedigaeth
    - Dioddef sgam, cam-drin domestig neu drosedd
- Iechyd:
  - Gweithgareddau dyddiol yr ymatebydd yn gyfyngedig iawn oherwydd problem iechyd neu anabled



Pecyn Annatod: Gwerth Economaidd a Chymdeithasol Swyddfa'r Post

## Dadansoddiad is-grŵp – BBaChau

Defnyddiwyd yr is-grwpiau canlynol i gategoreiddio busnesau bach a chanolig (BBaChau):

- Maint y BBaCh
- Diwydiant
- Pa mor aml fydd y BBaCh yn defnyddio swyddfa bost
- A yw'r ymatebydd yn nodi bod pob gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa'r Post yn bwysig i'w BBaCh
- A yw BBaCh yr ymatebydd yn defnyddio pob gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa'r Post fwy nag unwaith y flwyddyn
- Sut mae gweithwyr y BBaCh yn teithio i'w swyddfa bost leol
- Pa mor bell y mae gweithwyr y BBaCh yn teithio i fynd i'w swyddfa bost leol

## Ymatebion protest

Mewn prisiad atodol, ymateb protest yw pan fydd ymatebydd yn datgan PiD sero, yn gwrthod datgan PiD neu'n gwrthod unrhyw daliad a gynigir am resymau sy'n gysylltiedig â'r broses brisio. Mae ymatebion o'r fath yn cael eu dileu o samplau prisio amodol oherwydd rhagdybir nad ydynt yn nodi gwir werthoedd ymatebwyr (Jorgensen et al, 1999). Gellir rhoi ymatebion protest, er enghraifft, am resymau sy'n gysylltiedig â'r broses brisio, neu fel mater o egwyddor oherwydd gwrthwynebiad i dalu am nwyddau. Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi nodi ymatebion protest drwy gwestiynau ategol (fel sy'n nodweddiadol mewn astudiaethau prisio amodol) a heb gynnwys y rhain yn y sampl (fel y gwnaeth NERA (2009) a London Economics a YouGov (2016) yn flaenorol yn eu prisiadau o Swyddfa'r Post.

Mae'r cwestiwn atodol a ofynnwyd i benderfynu a roddwyd ymatebion protest fel a ganlyn:

Dywedasoch na fydddech yn cyfrannu treth er mwyn cynnal rhwydwaith Swyddfa'r Post. Pam na fydddech yn fodlon talu treth? Ticiwch unrhyw rai sy'n berthnasol.

- Roedd y dreth yn rhy uchel
  - Nid yw'r Swyddfeydd Post yn werthfawr i mi a/neu gymdeithas
  - Ni allaf fforddio'r dreth
  - Ddylwn i ddim talu treth i gefnogi Swyddfa'r Post
  - Nid oes angen i'r Llywodraeth gefnogi Swyddfa'r Post
  - Doeddwn i ddim yn gallu penderfynu/ddim yn deall y cwestiwn
  - Arall
  - Ddim yn gwybod/ Gwell gennyf beidio â dweud
- Ystyriwyd bod ymateb yn ymateb protest pe bai'r ymatebydd ond yn ateb 'Ddylwn i ddim talu treth i gefnogi Swyddfa'r Post' i'r cwestiwn hwn, ochr yn ochr â dim opsiynau eraill. Gofynnir y cwestiwn atodol hwn, neu un sy'n debyg iawn, deirgwaith yn ystod yr arolwg: ar ôl y cwestiynau dewis deuol ffin ddwbl am y rhwydwaith; ar ôl y cwestiwn prisiad atodol penagored (â ffin) am y rhwydwaith; ac ar ôl y cwestiynau dewis deuol â ffin ddwbl am bellter. Defnyddiwyd y dull hwn yn yr arolygon i ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolig.



## Pwysoli

O ran yr arolwg defnyddwyr, cafodd yr holl amcangyfrifon prisio eu pwysoli yn ôl aelwydydd (i fod yn gyson â'r cwestiynau, a ofynnwyd ar lefel aelwydydd). Cafodd yr holl gyfrifiadau eraill a oedd yn seiliedig ar yr arolwg defnyddwyr eu pwysoli yn ôl unigolion, oherwydd gofynnwyd y cwestiynau hyn ar sail unigol. Mae'r dull hwn yn unol â dull London Economics a YouGov (2016). Cafodd yr ymatebion i bob cwestiwn yn yr arolwg BBaCh eu pwysoli yn ôl BBaCh, gan gynnwys y pedwar arbrawf, gan fod y cwestiynau bob amser yn cael eu gofyn o safbwynt y busnes.

## Gwerth cymdeithasol blynyddol a chymhareb cost budd cymdeithasol

Cafwyd y gwerth cymdeithasol blynyddol i ddefnyddwyr rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd drwy luosi'r parodrwydd i dalu fesul aelwyd y flwyddyn â nifer yr aelwydydd yn y DG, sef 28,081,000 yn 2021 (SYG, 2022c). Yn yr un modd, lluoswyd y parodrwydd i dalu fesul BBaCh y flwyddyn â nifer y BBaChau yn y DG yn 2021, sef 5,583,245 (BEIS, 2021), i gael gwerth blynyddol BBaChau.

Er mwyn cael y gymhareb budd cymdeithasol-cost i ddefnyddwyr, rhannwyd gwerth cymdeithasol blynyddol y defnyddiwr â chyfanswm y cyllid a ddarparwyd i Swyddfa'r Post gan y Llywodraeth yn 2021-22, sef £227 miliwn (Clark a Booth, 2021). Yn 2021-22, roedd y £227 miliwn yn cynnwys cymhorthdal o £50 miliwn a £177 miliwn i'w fuddsoddi yn nyfodol y rhwydwaith (yn cynnwys chwistrelliad ecwiti o £125 miliwn a benthyciad o £52 miliwn). Er bod y cymhorthdal rhwydwaith wedi aros yn gyson ar £50 miliwn y flwyddyn ers 2019/20, roedd y cyllid ar gyfer buddsoddi, sef £177 miliwn, yn uwch nag a fu mewn unrhyw flwyddyn ers 2013/14. Gan fod y cyllido yn 2021-22 yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol, efallai bod y cymarebau budd cymdeithasol-cost a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn amcangyfrif rhy isel.



## A2.2 Canfyddiadau

### Prisiad amodol rhwydwaith

Fel yr eglurwyd uchod, roedd gosodiad cwestiynau prasio amodol y rhwydwaith yn caniatáu defnyddio tri dull i gyfrifo gwerth rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ei gyfanrwydd. Cyflwynir canlyniadau'r modelau hyn isod:

Tabl 1 Gwerth Rhwydwaith Swyddfa'r Post i aelwydydd

Model	Treth yr aelwyd y mis	Gwerth cymdeithasol blyneddol ar gyfer aelwydydd
Dewis deuol un-ffin	£12.65	£4.3 biliwn
Dewis deuol ffin ddwbl	£5.55	£1.9 biliwn
Prisiad amodol penagored â ffiniau	£11.13	£3.8 biliwn

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn ein hadroddiad yn seiliedig ar y dull prisiad amodol penagored â ffiniau, sy'n canfod mai'r dreth fesul aelwyd y mis y mae ymatebwyr yn fodlon ei thalu yw £11.13. Mae hyn yn awgrymu gwerth cymdeithasol blyneddol o £3.8 biliwn i rwydwaith Swyddfa'r Post.

Mae'r dull prisiad amodol penagored â ffiniau yn cael blaenoriaeth am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n defnyddio'r holl wybodaeth a gafwyd gan ymatebwyr i amcangyfrif PiD. Fel y crybwyllwyd yn A2.1, mae'r dull hwn yn defnyddio'r cwestiynau dewis deuol yn anuniongyrchol i ffinio'r atebion a roddir i'r cwestiwn penagored ac mae'n caniatáu i bob ymatebydd ddarparu eu hunion brisiad eu hunain drwy'r cwestiwn penagored (yn wahanol i'r ddau ddull arall).

Yn ail, er bod ymchwilwyr yn aml yn ffafrio defnyddio dull dewis deuol â ffin ddwbl (heb gwestiwn agored atodol),

Tabl 2 Amrywiad yn y parodrwydd i dalu am rwydwaith Swyddfa'r Post i aelwydydd (y mis) yn dibynnu ar y diffiniad o ymatebion protest

Ymateb protest*	DBDC	Penagored
Y rhai a roddodd yr ymateb protest yn unig	£5.55	£11.13
Y rhai a roddodd yr ymateb protest ar ei ben ei hun neu ymhlith ymatebion eraill	£17.50	£13.74

Sylwer: \*Cafodd ymatebion protest eu heithrio o'r dadansoddiad.

cawsom fod y dull hwn yn hynod sensitif i gynnwys neu eithrio ymatebion protest, a'r union ddull i ddiffinio ymatebion protest. Fel y dengys Tabl 2, mae'r amcangyfrifon PiD sy'n seiliedig ar ddull DBDC yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu a yw ymatebion protest (sydd, fel yr eglurir uchod, yn cael eu heithrio) yn cael eu diffinio fel: a) y rhai a roddodd ateb ond i nodi protest ("Ni ddylwn dalu treth i gefnogi Swyddfa'r Post"); neu b) y rhai a roddodd yr ateb hwn ar ei ben ei hun neu ynghyd ag atebion eraill.<sup>36</sup>

Mae'r diffiniad blaenorol yn arwain at amcangyfrif o £5.55 y mis tra bod y diffiniad olaf yn rhoi amcangyfrif o £17.50 y mis. Mewn cyferbyniad, mae canlyniad y dull prasio amodol penagored terfynedig yn llawer mwy sefydlog, sy'n awgrymu bod y dull hwn yn fwy dibynadwy. Felly, dewiswyd y dull prasio amodol penagored (â ffiniau) fel ein prif ddull.

<sup>36</sup> Sylwer bod y cwestiwn perthnasol yn caniatáu i ymatebwyr ddewis yr holl opsiynau sy'n berthnasol, gan ganiatáu'r ddau ddiffiniad gwahanol o ymatebion protest.



## Cymariaethau ag astudiaethau blaenorol

Cafodd astudiaethau eraill a oedd yn ceisio amcangyfrif gwerth cymdeithasol rhwydwaith Swyddfa'r Post eu cwblhau o'r blaen, yn fwyaf diweddar gan Public First yn 2020 a chyn hynny gan London Economics a YouGov yn 2016. Mae Tabl 3 yn cymharu'r astudiaeth hon ag adroddiad London Economics a YouGov (2016) o ran amcangyfrifon o'r gwerth cymdeithasol i ddefnyddwyr a busnesau rhwydwaith Swyddfa'r Post.<sup>37</sup> Yn seiliedig ar y dull sydd orau gennym (y dull prisiad amodol penagored â ffiniau a gyflwynir yn hanner chwith Tabl 3), mae'r amcangyfrifon ar gyfer defnyddwyr yn debyg iawn (mae canlyniad 2022 ychydig bach yn uwch), tra bod canlyniad 2022 ar gyfer busnesau yn £381 miliwn yn uwch na chanlyniad 2016.

Fel y nodwyd uchod, mae canlyniadau 2022, sydd yn seiliedig ar ddull DBDC, yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar sut y diffinnir ymateb protest. Felly, rydym yn adlewyrchu hyn yn y golofn berthnasol yn Nhabl 3 drwy gyflwyno ystodau. Ar gyfer defnyddwyr, mae ffin uchaf amcangyfrif 2022 (£5.9 biliwn) ychydig yn is na'r amcangyfrif yn 2016 (£6.5 biliwn). Ar y llaw arall, mae'r gwerth i fusnesau a nodir yn adroddiad 2016 (£786 miliwn) ychydig yn is nag ystod amcangyfrifon 2022 (£814 miliwn-£2.1 biliwn).

Tabl 3 Gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon o werth cymdeithasol rhwydwaith Swyddfa'r Post yn astudiaethau London Economics (2022) a London Economics a YouGov (2016) yn ôl y model a ddefnyddiwyd

Model	Prisiad amodol penagored â ffin		Dewis deuol â ffin ddwbl	
Astudiaeth	London Economics (2022)	London Economics ac YouGov (2016)	London Economics (2022)	London Economics ac YouGov (2016)
Gwerth cymdeithasol i ddefnyddwyr	£3.8 biliwn	£3.7 biliwn	£1.9 biliwn – £5.9 biliwn	£6.5 biliwn
Gwerth cymdeithasol i fusnesau	£984 miliwn	£603 miliwn	£814 miliwn – £2.1 biliwn	£786 miliwn

Sylwer: Cyflwynir ystod o amcangyfrifon ar gyfer model DBDC yn astudiaeth 2022, oherwydd sensitifrwydd y model hwn i ymatebion protest.

Astudiaeth Public First 2020 sydd â'r amcangyfrif uchaf o'r tri amcangyfrif ar gyfer defnyddwyr (£9.4 biliwn) a busnesau (£3.6 biliwn). Fodd bynnag, gall hyn fod yn gysylltiedig â defnyddio un model dewis deuaidd arwahanol yn astudiaeth Public First, yn debyg i sut mae model SBDC yn rhoi amcangyfrifon uwch yn yr astudiaeth hon (Tabl 1) ac astudiaeth London Economics a YouGov yn 2016. Fel y trafodwyd, mae'r model hwn yn defnyddio llai o wybodaeth na'r DBDC neu'r modelau prisiad amodol penagored, ac felly ni chafodd ei ddefnyddio'n fodel craidd yn yr astudiaeth hon nac yn un 2016. Hefyd, o ystyried bod astudiaeth Public First yn defnyddio dull gwahanol, ni ellir cymharu'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol â'r dull dewisol yn y naill astudiaeth na'r llall.



<sup>37</sup> Mae amcangyfrifon 2016 i'w gweld ar dudalen 33 o'r adroddiad. Yn yr adroddiad hwnnw, mae 'CV Method 1' yn cyfeirio at y dull prisiad amodol penagored â ffiniau, ac mae 'CV Method 2' yn cyfeirio at ddull DBDC. Mae adroddiad 2016 ar gael yma: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/566224/beis-16-37-post-office-network-social-value.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/566224/beis-16-37-post-office-network-social-value.pdf)

### Costau byw

Cafeat pwysig i'r canfyddiadau hyn yw cyflwr economi'r Deyrnas Gyfunol pan wnaed yr arolygon ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2022. Oherwydd chwyddiant uchel (10.1% ym mis Gorffennaf 2022 – yr uchaf ers 40 mlynedd (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022b)) ac argyfwng costau byw, cafwyd gostyngiadau digynsail yn incwm gwario aelwydydd, cyflogau rheolaidd mewn termau real, a hyder defnyddwyr. Canlyniad hyn yw bod y canlyniadau a gyflwynir yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o wir werth cymdeithasol Swyddfa'r Post.

Yn rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2022, dywedwyd bod disgwyl i incwm gwario aelwydydd ostwng 2.2% yn 2022-23, sef y gostyngiad mwyaf ers i gofnodion ddechrau yn 1956-57. Rhwng Ebrill a Mehefin 2022, cafwyd gostyngiad o 3.0% yn nhwf cyflogau rheolaidd mewn termau real (ONS 2022), sef y gostyngiad uchaf erioed ar gyfer cyflogau rheolaidd. Yn olaf, ym mis Gorffennaf 2022, roedd hyder defnyddwyr y DG yn is nag a fu unrhyw adeg ers i gofnodion ddechrau yn 1974 (GfK, 2022).

Nid yw'n syndod bod y sefyllfa economaidd ehangach wedi cael effaith ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon. Yn y cwestiwn ymateb protest ar gyfer model DBDC, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn methu â dewis y naill opsiwn na'r llall am na allent fforddio'r dreth. O'r 761 o ymatebwyr a allai ateb y cwestiwn hwn (y rhai nad oeddent yn derbyn y naill swm na'r llall), atebodd 301 (40%) na allent fforddio'r dreth. Yn yr un modd, ar gyfer arbrofion dewis y defnyddwyr ynghylch prasio gwasanaethau a phrisio pellter i wasanaethau, atebodd 33% a 31% o ymatebwyr a deimlai na allent ateb y cwestiynau yn realistig na allent fforddio unrhyw gynnydd yn eu trethi. Mae'r ymatebion hyn i'r arolwg defnyddwyr yn awgrymu y gallai'r chwyddiant uchel a gafwyd pan oedd yr arolygon yn cael eu cynnal fod wedi gostwng yr amcangyfrifon hyn.



## A2.3 Disgrifiadau gwasanaethau ar gyfer arbrofion dewis

### A2.3.1 Arbrawf dewis gwasanaethau

#### Gwasanaethau post

Mae'n golygu mynediad at wasanaethau llythyrau a pharseli:

- Prynu stampiau a labeli ar gyfer llythyrau (domestig a rhyngwladol)
- Prynu gwasanaethau parseli (domestig a rhyngwladol)
- Prynu gwasanaethau llythyrau a pharseli signed for (e.e. pan gadarnheir y derbyn drwy lofnod derbynydd)
- Prynu gwasanaethau llythyrau a pharseli special delivery (e.e. dosbarthiad next day gwarantedig gyda tracked a phrofi derbyn drwy lofnod.
- Prynu gwasanaethau parseli tracked (mae'n golygu y gallwch ddilyn hynt eich parcel ar ei daith)
- Prynu gwasanaethau parseli gorfaint ac o werth uchel

#### Dychwelyd a chasglu siopa ar-lein

Mae hyn yn golygu mynediad ar-lein at wasanaethau dychwelyd siopa a gwasanaethau Clicio a Chasglu parseli:

- Dychwelyd siopa ar-lein (e.e. dychwelyd pryniannau ar-lein drwy'r post)
- Gwasanaethau casglu (e.e. casglu pryniannau ar-lein o gangen Swyddfa'r Post)

#### Gwasanaethau arian parod a bancio neu adneuo arian parod

Mae hyn yn golygu mynediad at gyfleusterau arian parod a bancio sylfaenol:

- Mynediad yn y gangen at wasanaethau codi ac adneuo arian parod ar gyfer eich cyfrif banc (unrhyw fanc stryd fawr)
- Mynediad am ddim at beiriannau arian parod
- Mynediad at wasanaethau adneuo sieciau
- Rhoi newid
- Gwirio balansau cyfrifon cyfredol

#### Cynhyrchion teithio ac arian tramor

Mae hyn yn golygu mynediad at wasanaethau arian teithio a chynhyrchion arian tramor:

- Prynu Cardiau Arian Teithio (cerdyn y gallwch ei lwytho ag arian tramor i'w ddefnyddio mewn siopau neu ar-lein)
- Prynu arian tramor mewn Bureau de Change
- Casglu arian tramor a brynwyd ymlaen llaw ar-lein (Clicio a Chasglu)
- Yswiriant teithio (Taith Sengl, Aml-daith Flynyddol a chynhyrchion Backpacker)

#### Cynhyrchion gwasanaethau ariannol ehangach, gan gynnwys yswiriant a thaliadau rhyngwladol

Mae hyn yn golygu mynediad at wasanaethau eraill o ran cyllid, trosglwyddo arian ac yswiriant:

- Prynu cynhyrchion yswiriant (e.e. yswiriant cerbyd, cartref, bywyd ac anifeiliaid anwes)
- Agor cyfrif cynilo Swyddfa'r Post (e.e. cynhyrchion mynediad hawdd, cyfradd sefydlog a Chyfrif Cynilo Unigol (ISA))
- Cael morgais Swyddfa'r Post neu fenthyciad personol
- Cael cerdyn credyd Swyddfa'r Post
- Mynediad at wasanaethau trosglwyddo arian parod (e.e. archebion post, MoneyGram)
- Prynu cynhyrchion cynilo (e.e. Bondiau Twf)

#### Talu biliau (e.e. cyfleustodau, treth gyngor, taliadau cyngor lleol)

Mae hyn yn golygu darparu cyfleusterau talu ar gyfer gwasanaethau cyfleustodau cyhoeddus:

- Talu biliau cyfleustodau (e.e. dŵr, nwy, trydan neu ffôn), gan gynnwys gyda chynlluniau rhagdalau (e.e. cardiau nwy ac allweddi trydan)
- Talu rhent tai cymdeithasol (e.e. ar gyfer tai Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai)
- Talu am wasanaethau Awdurdod Lleol (e.e. treth gyngor, trwydded barcio)
- Prynu tocynnau teithio (e.e. tocynnau trên neu fws)



### Gwasanaethau hunaniaeth

Mae hyn yn golygu mynediad at ystod o wasanaethau hunaniaeth ddigidol a chorfforol, ar-lein neu mewn cangen:

- Gwasanaethau hunaniaeth ddigidol ("EasyID Swyddfa'r Post") – math o hunaniaeth ddigidol aml ddefnydd ar eich ffôn i'ch helpu i brofi eich oedran a'ch hunaniaeth ar-lein neu mewn siop
- Gwasanaeth GOV.UK Verify (ar-lein) – dilysu hunaniaeth mewn Swyddfa Bost, gan alluogi cwsmeriaid wedyn i gael mynediad at wasanaethau ar GOV.UK
- Gwasanaethau ardystio dogfennau (gwirio dogfennau gwreiddiol ac ardystio llungopiâu o ddogfennau, e.e. wrth wneud cais am forgais neu swydd newydd)
- Gwiriadau cofnodion troseddol (a elwir yn wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- Gwiriad dilysu yn y gangen (profi hunaniaeth wyneb yn wyneb, e.e. fel rhan o hawl i weithio yn y DG neu wiriadau recriwtio)

### Gwasanaethau Llywodraeth

Mae hyn yn golygu mynediad at nifer o wasanaethau ar ran adrannau'r Llywodraeth a chynghorau, gan gynnwys prosesu taliadau budd-dal cymdeithasol a chredyd treth:

- Talu pensiynau'r wladwriaeth mewn arian parod
- Talu budd-daliadau nawdd cymdeithasol neu fudd-daliadau treth (e.e. Credyd Cynhwysol) mewn arian parod
- Talu taliadau cymorth brys (gan Lywodraeth y DG neu Awdurdod Lleol e.e. Gostyngiadau Cartrefi Cynnes)
- Gwasanaethau Gwirio ac Anfon Pasbort (e.e. gwirio cais am basbort a dilysu gwybodaeth ategol)
- Gwneud cais a chasglu trwydded breswyllo biometrig (ar gyfer cwsmeriaid o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd ag angen gwneud cais i aros yn y DG)
- Darparu ffurflenni cais am drwyddedau cerbyd (e.e. y gall cwsmeriaid eu llenwi a'u dychwelyd i DVLA), a chynlluniau cynilo ar gyfer ffioedd trwyddedau
- Gwneud cais a thalu am adnewyddu trwydded yrru
- Gwneud cais a thalu am drwydded yrru ryngwladol
- Gwneud cais a thalu am drwydded gwialen bysgota
- Gwneud cais a thalu am Dreth Cerbyd (treth ffordd)

### A2.3.2 Arbrawf dewis pellterau

#### Gwasanaethau post:

- Gwerthu stampiau a labeli ar gyfer llythyrau (domestig a rhyngwladol)
- Gwerthu gwasanaethau parseli (anfon parseli yn y DG neu'n rhyngwladol), gan gynnwys parseli gorfaint â gwerth uchel
- Gwerthu gwasanaethau post a pharseli signed for, special delivery a tracked
- Caniatáu i chi dychwelyd siopa ar-lein (e.e. dychwelyd pryniannau ar-lein trwy'r post)
- Gwasanaethau casglu (e.e. casglu pryniannau ar-lein)

#### Gwasanaethau arian parod a bancio:

- Caniatáu i chi dynnu arian parod a gwneud adneuron i'ch cyfrif banc
- Peiriannau arian parod rhad ac am ddim i'w defnyddio
- Caniatáu i chi adneuo sieciau
- Rhoi newid (e.e., newid papur £10 am 10 o ddarnau arian £1)
- Caniatáu i chi wirio balans(au) eich cyfrif(on) cyfredol

#### Gwasanaethau llywodraeth a hunaniaeth:

- Talu pensiynau a buddion mewn arian parod
- Gwasanaethau pasbort (e.e. gwirio cais am basbort a dilysu gwybodaeth ategol)
- Gwneud cais a chasglu trwydded breswyllo biometrig (ar gyfer cwsmeriaid sydd am wneud cais i aros yn y DG, sydd o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd)
- Ffurflenni, ceisiadau ac adnewyddu dogfennau ar gyfer DVLA, gan gynnwys trwyddedau gyrru, trwyddedau gyrru rhyngwladol a threth ffordd
- Ffurflenni cynlluniau arbedion cyllideb ar gyfer ffi trwydded
- Ceisiadau ac adnewyddu dogfennau eraill (e.e. trwydded gwialen bysgota)
- Ardystio dogfennau (gwirio dogfennau gwreiddiol ac ardystio llungopiâu e.e. wrth wneud cais am forgais neu swydd newydd)
- Gwiriadau cofnodion troseddol (a elwir yn wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS))
- Gwiriad dilysu mewn cangen (profi hunaniaeth wyneb yn wyneb e.e. fel rhan o hawl i weithio yn y DG neu wiriadau recriwtio)

#### Gwasanaethau cyfnewid arian tramor a throsglwyddo arian:

- Prynu arian tramor mewn Bureau de Change
- Casglu arian tramor a brynwyd ymlaen llaw ar-lein
- Mynediad at wasanaethau trosglwyddo arian parod (e.e. archebion post, MoneyGram)









